

# Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Crynodeb o'r Bil

Mawrth 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6296**

E-bost: **[Osian.Bowyer@Cynulliad.Cymru](mailto:Osian.Bowyer@Cynulliad.Cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

LinkedIn: **[Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Crynodeb o'r Bil**

Mawrth 2020

---

**Awdur:**  
Osian Bowyer



# Cynnwys

|   |           |
|---|-----------|
| <b>1. Cefndir y Bil a Throsolwg .....</b>   | <b>1</b>  |
| <b>2. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael .....</b>  | <b>2</b>  |
| <b>3. Rhan 1 - Etholiadau .....</b>   | <b>3</b>  |
| 3.1. Adran 2 - Estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau<br>llywodraeth leol .....  | 3         |
| 3.2. Adran 4 - Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu<br>cymorth .....   | 4         |
| 3.3. Adrannau 5-10 - Dwy system bleidleisio .....   | 5         |
| 3.4. Adran 11: Adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau a<br>Democratiaeth Leol .....  | 6         |
| 3.5. Adrannau 14-16: Newid cylch etholiadol o dymor pedair<br>blynedd i bump ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned ..... | 6         |
| 3.6. Adran 17: Estyn y pŵer i newid diwrnod arferol etholiadau<br>lleol yng Nghymru .....                                       | 6         |
| 3.7. Adrannau 18-21: Cronfa ddata o gofrestrïadau etholiadol,<br>taliadau a thorri dyletswydd. ....                             | 7         |
| 3.8. Adran 22: Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais .....   | 7         |
| 3.9. Adrannau 23 a 24: Cymhwysiad ac anghymhwysiad person<br>i gael ei ethol neu ddal swydd - Ymgeisyddiaeth .....              | 7         |
| 3.10. Adran 26 a 27: Disgresiwn Gweinidogion Cymru i gyflwyno<br>cynlluniau treialu a chanllawiau ar gyfer etholiadau .....     | 8         |
| 3.11. Adran 28: Talu am wariant swyddogion canlyniadau .....  | 9         |
| <b>4. Rhan 2 - Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol .....</b>  | <b>10</b> |

---

|       |  |    |
|-------|--|----|
| 4.1.  | Pennod 1: Y Pŵer Cyffredinol.....  | 11 |
| 4.2.  | Adran 31: Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol .....   | 11 |
| 4.3.  | Adran 32: Terfynau'r pŵer cyffredinol .....  | 11 |
| 4.4.  | Adran 33: Cyfyngiadau ar godi ffi .....  | 11 |
| 4.5.  | Adran 34: Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben<br>masnachol .....                                   | 12 |
| 4.6.  | Adran 35: Pwerau i wneud darpariaeth atodol.....   | 12 |
| 4.7.  | Pennod 2: Cyngorau Cymuned Cymwys .....  | 12 |
| 4.8.  | Adran 37: Dod yn gyngor cymuned cymwys .....   | 13 |
| 4.9.  | Adran 38-40: Parhau i fod yn gyngor cymuned cymwys a<br>pheidio â bod yn gyngor cymuned cymwys ..... | 14 |
| 4.10. | Adran 41: Cyngorau cymuned cyffredin a sefydlir ar ôl i'r<br>Ddeddf hon gael ei phasio .....         | 14 |
| 4.11. | Adran 44: Diwygiadau mewn perthynas â'r bennod hon .....   | 14 |

## **5. Rhan 3 – Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol.....16**

|      |  |    |
|------|--|----|
| 5.1. | Adrannau 46-48: Dyletswydd i annog cyfranogiad .....   | 16 |
| 5.2. | Adran 49: Dyletswydd i wneud cynllun deisebau.....   | 17 |
| 5.3. | Adran 50: Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriadau<br>swyddogol.....                      | 18 |
| 5.4. | Adran 52: Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi<br>cyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad..... | 18 |
| 5.5. | Adran 53: Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau<br>lleol penodol.....                     | 18 |
| 5.6. | Adran 54: Amodau o ran aelodau o awdurdodau lleol yn<br>mynychu o bell .....                         | 19 |

5.7. Adran 55: Cyfranogi yng nghyfarfodydd cyngorau cymuned ..... 20

5.8. Adran 57: Adroddiadau Blyneddol gan Gyngorau Cymuned ..... 20

**6. Rhan 4 – Gweithrediaethau, aelodau, swyddogion a phwyllgorau awdurdodau lleol ..... 22**

6.1. Adrannau 59-62: Penodi prif weithredwr, rheoli perfformiad a chydabyddiaeth ariannol ..... 22

6.2. Adran 63: Penodi cynorthwywyr gweithrediaeth ..... 23

6.3. Adran 64: Rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth ..... 24

6.4. Adran 66: Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol ..... 24

6.5. Adran 67: Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad ..... 24

6.6. Adran 69: Ymchwiliadau penodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ..... 25

6.7. Adran 71: Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu ..... 25

6.8. Adran 72: Cynlluniau hyfforddi cyngorau cymuned ..... 26

**7. Rhan 5 – Cydweithio gan brif gyngorau ..... 27**

7.1. Adran 75: Cais gan brif gyngorau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig ..... 27

7.2. Adran 76: Ymgynghori cyn gwneud cais cyd-bwyllgor ..... 27

7.3. Adrannau 77-78: Y rheoliadau ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgor a'r amodau sydd i'w bodloni ..... 28

7.4. Adrannau 79-80: Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan na fo cais wedi'i wneud a'r amodau sydd i'w bodloni.....28

7.5. Adrannau 81-87: Darpariaethau pellach mewn perthynas â chyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau.....29

## **8. Rhan 6 – Perfformiad Prif Gyngorau a’u Llywodraethu ...30**

8.1. Adrannau 88 a 90: Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus ac i adrodd ar ei berfformiad..... 30

8.2. Adran 89: Dyletswydd i ymgynghori â phobl leol etc. ar berfformiad .....31

8.3. Adrannau 91-93: Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel, ymateb i adroddiad gan banel, a rheoliadau atodol.....31

8.4. Adran 94: Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad arbennig.....32

8.5. Adran 95-96: Dyletswydd ar brif gyngor a Gweinidogion Cymru i ymateb i argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru.....32

8.6. Adran 97-100: Pŵer mynediad, arolygu a ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol .....33

8.7. Adrannau 101-106: Pŵer cyfarwyddo, ymyrryd a chefnogaeth a ddarperir gan Weinidogion Cymru .....33

8.8. Adrannau 108-110: Pŵer Gweinidogion Cymru i ychwanegu at restr y bobl y mae'n rhaid anfon adroddiad atynt, i ddiwygio deddfiadau, a dyroddi canllawiau.....34

8.9. Adrannau 114 a 115: Enw a swyddogaeth newydd pwyllgorau llywodraethu ac archwilio ynghyd â'u haelodaeth.....34

8.10. Adrannau 118 a 119: Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr .....35

## **9. Rhan 7 – Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd.....36**

|            |   |           |
|------------|---|-----------|
| 9.1.       | Pennod 1 – Uno prif ardaloedd yn wirfoddol.....   | 36        |
| 9.2.       | Adran 120: Ceisiadau i uno.....   | 37        |
| 9.3.       | Adran 121: Ymgynghori cyn gwneud cais i uno .....   | 37        |
| 9.4.       | Adran 122: Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno .....   | 37        |
| 9.5.       | Adran 124: Cyngorau cysgodol a gweithrediaethau<br>cysgodol.....  | 38        |
| 9.6.       | Adrannau 125 a 126: System bleidleisio ac etholiadau.....   | 38        |
| 9.7.       | Pennod 2 – Ailstrwythuro Prif Ardaloedd .....   | 38        |
| 9.8.       | Adrannau 128-130: Amodau i'w bodloni, ceisiadau i<br>ddiddymu a rheoliadau ailstrwythuro .....  | 39        |
| 9.9.       | Adran 131-133: Rheoliadau ailstrwythuro – materion<br>penodol eraill i'w cynnwys.....   | 39        |
| 9.10.      | Pennod 3 – Swyddogaethau'n ymwneud ag Uno ac<br>Ailstrwythuro.....  | 40        |
| 9.11.      | Adrannau 135 a 136: Pwyllgorau pontio a chyfyngiadau ar<br>draffodiadau .....   | 40        |
| 9.12.      | Adran 137: Adolygiadau o drefniadau etholiadol .....  | 40        |
| 9.13.      | Pennod 4 - Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer prif<br>gyngorau newydd .....  | 41        |
| 9.14.      | Adrannau 141-44: Cyfarwyddydau i Banel Annibynnol<br>Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, adroddiadau gan banel a<br>datganiadau ar bolisiau tâl ..... | 41        |
| <b>10.</b> | <b>Rhan 8 – Cyllid llywodraeth leol.....</b>  | <b>42</b> |
| 10.1.      | Adrannau 149-151: Osgoi ardrethi annomestig.....  | 42        |
| 10.2.      | Adran 152: Lluosydd cyfraddau annomestig.....   | 43        |
| 10.3.      | Adran 154: Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu   |           |



|  |           |
|--|-----------|
| dyledwyr y dreth gyngor .....  | 44        |
| <b>11. Rhan 9 - Amrywiol .....</b>   | <b>45</b> |
| 11.1. Adran 157: Pennaeth gwasanaethau democrataidd.....   | 45        |
| 11.2. Adran 161: Uno a daduno byrddau gwasanaethau<br>cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r<br>Dyfodol (Cymru) 2015 ..... | 45        |
| 11.3. Adrannau 162 a 163: Awdurdodau tân ac achub.....   | 46        |
| <b>12. Ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil .....</b>  | <b>47</b> |
| 12.1. Gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a<br>Chymunedau ar y Bil .....                                       | 47        |
| 12.2. Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad .....   | 47        |

## 1. Cefndir y Bil a Throsolwg

Sefydlwyd y strwythur llywodraeth leol presennol yng Nghymru, sy'n cynnwys 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ("prif gynghorau") ym 1996 gan **Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994**. Mae'r ddadl ynghylch cynaliadwyedd y strwythur, ac effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol wedi parhau byth ers hynny. Mae Llywodraethau Cymru, y gorffennol a'r presennol, wedi bwrw iddi â nifer o adroddiadau, comisiynau ac ymgynghoriadau papur gwyn, gyda'r nod o ddiwygio llywodraeth leol, cryfhau atebolrwydd democrataidd a chynyddu amrywiaeth y gynrychiolaeth.

Yn dilyn cyhoeddi **argymhellion** (PDF 9MB) 'Comisiwn Williams', ceisiodd Llywodraeth Cymru yn y Pedwerydd Cynulliad symud yr 'agenda newid' yn ei blaen. Cyflwynwyd **Bil drafft** a fyddai'n paratoi'r ffordd ar gyfer uno awdurdodau lleol, yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau, ac yn newid swyddogaethau cynghorau a'u haelodau. Fodd bynnag, ni wireddwyd y bwriad o gyflwyno Bil terfynol ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Yn ystod 2018, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ailgychwyn y ddadl ar ddiwygio llywodraeth leol a lansiodd **Ymgynghoriad Papur Gwyrdd - Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl**. Roedd hefyd wedi lansio ymgynghoriad flwyddyn ynghynt ar **Ddiwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol** fel rhan o adolygiad i drefniadau a swyddogaethau democrataidd yng Nghymru.

Ar 18 Tachwedd 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** ("Y Bil") (PDF 1MB) ynghyd â'r **Memorandwm Esboniadol** (PDF 5MB). Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol.

Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC, wrth gyflwyno'r Bil yn y **Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd 2019** fod Llywodraeth Cymru yn "newid y fframwaith llywodraethiant ar gyfer llywodraeth leol er mwyn hwyluso gwell arloesi, tryloywder a pherchnogaeth leol ar gyfer gwella canlyniadau darparu gwasanaethau a safonau ledled Cymru".

## 2. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau etholiadol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethiant ym maes llywodraeth leol. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** (fel y'i cyflwynwyd) (PDF 5MB) yn datgan bod y Bil yn ceisio darparu "ffyrdd newydd i lywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau" a'i fod hefyd "yn ceisio adfywio democratiaeth leol yng Nghymru."

Mae'r Bil yn ceisio 9estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, ac yn galluogi prif gynghorau i ddewis y math o system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau lleol yn eu hardaloedd. Mae'r Bil hefyd yn rhoi cyfleoedd i dreialu dulliau i gynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth leol mewn ffordd "sy'n addas i fywyd modern ac yn sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl i bawb."

Nod y Bil hefyd yw diwygio a chryfhau atebolrwydd, perfformiad a thryloywder ym maes llywodraeth leol er mwyn darparu "gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch, o ansawdd uchel." Mae ynddo hefyd ddarpariaethau sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Mae Gweinidogion Cymru yn gobeithio y bydd hyn yn **annog mwy o amrywiaeth** mewn llywodraeth leol sy'n adlewyrchu'n well y cymunedau a wasanaethir ganddi.

Mae yna nifer o ddarpariaethau yn y Bil sydd â'r nod o geisio hwyluso **mwy o gydweithredu** rhwng prif gynghorau i sicrhau "systemau gweithio rhanbarthol sy'n fwy cyson a chlr". Mae hyn yn cynnwys fframwaith i hwyluso **uno gwirfoddol**, neu ailstrwythuro prif gynghorau. Ac mae yna ddarpariaethau penodol yn ymwneud â chyllid llywodraeth leol, yn benodol o ran y dreth gyngor a'r ardrethi annomestig (ardrethi busnes).

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Brif Gynghorau a Chynghorau Cymuned cymwys gael y **pŵer cymhwysedd cyffredinol**. Mae'r darpariaethau yn galluogi cynghorau cymhwysol i "weithredu er budd eu cymunedau" heb yr angen i bennu pwerau penodol i ymgymryd â gweithgaredd penodol. Mae pŵer o'r fath wedi'i gymhwyso yn Lloegr ers 2012.

## 3. Rhan 1 – Etholiadau

Ers 31 Ionawr 2017, mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gweinyddu etholiadau'r Senedd a Llywodraeth Leol. Rhoddodd y newid hwn gyfle i Weinidogion Cymru adolygu'r fframwaith o ddeddfwriaeth sy'n gymwys i etholiadau lleol yng Nghymru.

Nod Rhan 1 y Bil, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, yw “adfywio democratiaeth leol yng Nghymru”. Mae'n cyflwyno darpariaethau a fydd yn estyn yr etholfraint i gynnwys pleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed ac ar gyfer dinasyddion tramor sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru. Mae hefyd yn cyflwyno'r opsiwn i brif gynghorau ddewis y system bleidleisio y mae am ei defnyddio – system cyntaf i'r felin (FPTP) neu'r bleidlais drosglwyddadwy sengl (STV).

Mae yna hefyd nifer o ddarpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr, cylchoedd etholiadol, cynigion ar gyfer cynlluniau treialu etholiadol a thalu gwariant swyddogion canlyniadau.

### 3.1. Adran 2 – Estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol

#### **Pleidleisiau i bobl 16 a 17 oed**

1. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yn y Memorandwm Esboniadol fod yr “achos dros ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio wedi'i ddatgan dro ar ôl tro”, yn ddiweddaraf mewn perthynas â'r Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru). Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau sy'n estyn yr etholfraint fel y caiff pobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.
2. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud bod pobl ifanc 16 a 17 oed “yn cael llawer mwy o addysg wleidyddol na'r hyn a gafodd cenedlaethau blaenorol” a bod dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn “rhannau pwysig o'r cwricwlwm”. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod dysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd i astudio “gwleidyddiaeth a materion cyfoes” trwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a Bagloriaeth Cymru.

#### **Pleidleisiau i ddinasyddion tramor sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru**

3. Dywed Llywodraeth Cymru nad yw'n “gweld unrhyw reswm pam na ddylai pobl sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru fedru cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, beth bynnag yw eu cenedligrwydd.” Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai defnyddwyr gwasanaeth a phobl sy'n

cyfrannu at gyllid y cynghorau "allu helpu i benodi'r rheini sy'n eu cynrychioli".

4. Roedd y mater o estyn yr etholfraint i ddinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru hefyd yn destun dadl yn ystod hynt y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Gwnaeth Llywodraeth Cymru welliant i'r Bil hwnnw yng Nghyfnod 2, i estyn yr hawl i ddinasyddion tramor sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai Aelodau Cynulliad yn ystod y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil hwnnw mai bach iawn o drafodaeth a gwaith craffu a gafwyd ar y mater. Yn ystod y **ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd 2019** dywedodd Suzy Davies AM fel a ganlyn am y gwelliant:

"Felly, mae gennym hyn o'n blaenau yn awr heb unrhyw beth tebyg i dystiolaeth wedi'i chraffu o blaid estyn yr etholfraint i wladolion tramor preswyl. Buaswn wedi hoffi clywed y dystiolaeth honno, fel y gwnaethom o blaid pleidleisiau i garcharorion, ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i'r Cynulliad hwn—ni cheir cwestiynau ynglŷn â sut i gyrraedd y pleidleiswyr newydd hyn, sut i sicrhau eu bod yn deall eu hawliau newydd..."

5. Bydd llywodraeth leol yn wynebu rhai costau ychwanegol o ganlyniad i estyn yr etholfraint. Un gost y bydd angen i brif gynghorau ei thalu o ganlyniad i'r Bil hwn yw cost cofrestru dinasyddion tramor sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y byddai hyn yn costio cyfanswm o £40,000 bob blwyddyn ar draws pob un o'r 22 awdurdod.
6. Bydd costau ychwanegol hefyd i brif gynghorau o ran gweinyddu etholiadol yr etholwyr llywodraeth leol estynedig. Dyma gost cynnal yr etholiad a chyfrif y pleidleisiau. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd cost o £227,000 (ar draws pob un o'r 22 awdurdod) ar gyfer pob cylch etholiadol llywodraeth leol.

### 3.2. Adran 4 – Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth

7. Yn unol â'r darpariaethau newydd i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, bydd yn ofynnol i brif gynghorau hybu a darparu cefnogaeth i'r garfan hon ynghylch cofrestru i bleidleisio. Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd angen i bob cyngor glustnodi tua 50 y cant o amser swyddog ar radd 43 (uwchswyddog neu'n uwch) i gyflawni'r 'gweithgareddau perthnasol'. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost y ddarpariaeth hon ar gyfer prif gynghorau oddeutu £1.74 miliwn rhwng 2020 a 2022.
8. Er bod dyletswydd ar brif gynghorau i hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc ynghylch cofrestru i bleidleisio, cyflawnir hyn i raddau helaeth trwy'r ysgolion. Mae carfan na fydd yn cael ei chwmpasu trwy gyfrwng y dull hwn, sy'n cynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Nid oes darpariaeth benodol sy'n gosod dyletswydd ar Gomisiwn Etholiadol Cymru i hybu ymwybyddiaeth ymhlith y garfan hon. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai bwriad Llywodraeth Cymru yw i'r Comisiwn Etholiadol gynnal ymgyrchoedd i addysgu'r cyhoedd a sicrhau bod deunyddiau ar gael i'r holl bobl ifanc a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif y bydd costau unwaith ac am byth o £112,000 i'r Comisiwn Etholiadol gyflawni'r gwaith hwn.

9. Er ei bod yn estyn yr hawl i bleidleisio i ddinasyddion tramor sy'n preswylion gyfreithlon yng Nghymru, nid yw adran 4 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i hybu ymwybyddiaeth ymhlith y garfan hon a darparu cymorth iddynt.

### 3.3. Adrannau 5-10 - Dwy system bleidleisio

10. Mae adrannau 5 i 10 o'r Bil yn gwneud darpariaethau sy'n rhoi'r opsiwn i brif gynghorau ddewis pa system bleidleisio i'w defnyddio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn eu hardal. Yr opsiynau yn y Bil yw'r system y cyntaf i'r felin (FPTP) neu'r bleidlais drosglwyddadwy sengl (STV).
11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod cefnogwyr **FPTP** yn yr ymgyngoriad ar y *Papur Gwyn: Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, o'r farn bod gweithdrefnau pleidleisio a chyfrif "yn syml, yn gyfarwydd ac yn weddol rad." Dywedodd y rhai sy'n ffafrio **STV**, fel rhan o'r ymgyngoriad hwnnw, bod y "system yn cynnig mwy o gymesuredd ac yn golygu bod pleidlais pawb yn cyfrif, mae'n lleihau seddi di-ymgeisydd, yn annog amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr ac yn annog ymgysylltiad pleidleiswyr".
12. Mae'r crynodeb o'r ymatebion i ymgyngoriad y Papur Gwyn yn nodi fel a ganlyn:

"O ran dewis, roedd 33 allan o'r 35 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau am y cynnig hwn yn anghytuno a byddai'n well ganddynt gadw un system bleidleisio ar gyfer Cymru gyfan. Y prif reswm dros hyn oedd y gallai arwain at ddryswch ymhlith y cyhoedd pe bai gan awdurdodau cyfagos systemau pleidleisio gwahanol."
13. Byddai angen cefnogaeth dwy ran o dair o holl seddau'r cyngor yn yr awdurdod perthnasol ar unrhyw gynnis i newid y system bleidleisio. Byddai angen i'r awdurdod hefyd ymgyngori â thrigolion sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, a'r cynghorau tref a chymuned yn ei ardal ynghylch ei fwriadau i newid y system bleidleisio.
14. Er mwyn sicrhau na ellir newid systemau pleidleisio yn syth ar ôl etholiad a newid gweinyddiaeth, mae adran 9(5) yn gwneud darpariaeth i atal prif gynghorau rhag newid y system bleidleisio hyd nes bod o leiaf ddau etholiad

cyffredin wedi'u cynnal o dan y system bleidleisio newydd.

### **3.4. Adran 11: Adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol**

- 15.** Mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn Ffiniau), corff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru, gyfrifoldeb i fonitro ac adolygu'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i'r strwythur llywodraeth leol yng Nghymru.
- 16.** Mae adran 11 o'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael eu hysbysu bod prif gyngor wedi gwneud penderfyniad i newid y system bleidleisio, gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau i gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardaloedd y cyngor.
- 17.** Mae'r crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau (tudalen 85 o'r Memorandwm Esboniadol fel y'i cyflwynwyd), yn nodi fel a ganlyn:

“Bydd y Cyfarwyddyd yn cael ei sbarduno gan hysbysiad am benderfyniad llwyddiannus gan y cyngor dan sylw. Bydd y Cyfarwyddyd yn cyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol pryd i gyflwyno argymhellion terfynol. Mae'r weithdrefn ar gyfer yr adolygiad wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Bil hwn. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.”
- 18.** Mae'r gweithdrefnau yn Atodlen 1 nid yn unig yn nodi'r pwerau i gyfarwyddo adolygiad ond hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi “cyfarwyddydau cyffredinol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol”. Mae hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i roi'r gorau i gynnal adolygiad cychwynnol neu gynnal adolygiad cychwynnol arall ar ôl cyhoeddi adroddiad interim.

### **3.5. Adrannau 14-16: Newid cylch etholiadol o dymor pedair blynedd i bump ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned**

- 19.** Mae adrannau 14, 15 ac 16 yn gwneud darpariaethau i newid cylch etholiadol holl etholiadau lleol yng Nghymru o dymor pedair blynedd i bump, a fyddai'n cysoni etholiadau llywodraeth leol â chyrrff seneddol eraill, megis senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **3.6. Adran 17: Estyn y pŵer i newid diwrnod arferol etholiadau lleol yng Nghymru**

- 20.** Mae adran 17 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru amrywio, drwy orchymyn, ddiwrnod yr etholiadau llywodraeth leol arferol. Nid yw'r rhesymeg dros ddarpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, ond mae Tabl 5.1 (tudalen 59 y Memorandwm) yn nodi fel a ganlyn:



“Mae gan y pŵer i newid dyddiad arferol etholiadau llywodraeth leol oblygiadau i'r modd y gweinyddir ac y paratoir ar gyfer yr etholiadau. Byddai'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol, felly y weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol.”

### 3.7. Adrannau 18-21: Cronfa ddata o gofrestriadau etholiadol, taliadau a thorri dyletswydd.

21. Mae darpariaethau penodol yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu a chynnal **cronfa ddata Cymru gyfan** o wybodaeth cofrestru etholiadol. Nodir ei bwrpas yn is-adran (3) o adran 18, sy'n cynnwys 'hwyluso treialu trefniadau newydd' a 'gwella cywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yn y cofrestrau etholwyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol" gan gynnwys aelodaeth o Senedd Cymru'.
22. Mae manteision y ddarpariaeth, fel y'i nodir yn y Memorandwm Esboniadol, yn cynnwys sicrhau cywirdeb y gofrestr a chefnogi rhagor o ddiwygiadau i'r trefniadau etholiadol. Noda'r Memorandwm Esboniadol hefyd fod “Cymru yn wlad ddigon bach, heb ormod o wahanol gofrestrau, iddi fod yn realistig dyfeisio cofrestr electronig gyffredin.” Byddai un corff, naill ai prif gyngor, swyddog cofrestru etholiadol yn gweithredu ar ran rhanbarth o Gymru, neu'r Comisiwn Ffiiiau yn gyfrifol am ei rheoli. Ni fyddai cronfa ddata Cymru gyfan yn cymryd lle'r 22 o gofrestrau presennol.
23. Hefyd, yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd cronfa ddata Cymru gyfan yn galluogi rhagor o ddiwygiadau i'r trefniadau etholiadol, gan gynnwys **“galluogi pleidleiswyr i bleidleisio mewn gorsafoddd pleidleisio y tu allan i'w hardaloedd awdurdod lleol”**.

### 3.8. Adran 22: Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais

24. Mae adran 22 yn diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, gan alluogi swyddogion cofrestru etholiadol i gofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais. Fodd bynnag, rhaid i'r swyddog cofrestru etholiadol fod yn fodlon bod ganddo wybodaeth ddibynadwy bod yr unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru. Gallai'r ddarpariaeth hon fod o arwyddocâd arbennig yng nghyd-destun cofrestru pobl 14 a 15 oed. Gallai “ysgolion a gwasanaethau addysgol” ddarparu data am y garfan hon i swyddogion cofrestru etholiadol.
25. Cyn ychwanegu pleidleisiwr at y gofrestr heb gais, mae'n rhaid i'r swyddog cofrestru etholiadol hysbysu'r unigolyn yn ysgrifenedig, yn ogystal â'i hawliau i gael ei eithrio neu i wneud cais am gofrestrriad dienw.

### 3.9. Adrannau 23 a 24: Cymhwysiad ac anghymhwysiad person i gael ei ethol neu ddal swydd – Ymgeisyddiaeth



- 26.** Ar hyn o bryd, mae cyfyngiadau ar weithwyr a swyddogion cyngorau, gan gynnwys athrawon, rhag sefyll etholiad yn ardal y cyngor lle y maent yn cael eu cyflogi. Er mwyn sefyll etholiad yn ardal eu cyngor eu hunain, byddai angen iddynt ymddiswyddo o'u cyflogaeth â thâl. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol, er ei bod yn "cydnabod bod angen cadw cydbwysedd er mwyn sicrhau hygrededd a didueddrwydd y cyngor" y "**gallai'r cyfyngiadau hynny atal** amrywiaeth eang o ymgeiswyr addas o gefndiroedd amrywiol rhag camu ymlaen".
- 27.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i weithwyr cyngor (ac eithrio'r rhai sydd mewn swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol) sefyll etholiad. **Dim ond pe baent yn cael eu hethol** y byddai'n ofynnol i weithwyr ymddiswyddo o'u cyflogaeth â thâl gyda'r cyngor.
- 28.** Mae hefyd ddarpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwysiad unigolion rhag sefyll unrhyw etholiad llywodraeth leol. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU yn 2017 ynghylch ehangu'r meini prawf anghymhwysio i gynnwys unigolion sy'n destun y canlynol:
- gofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (cofrestr troseddwy'r rhyw);
  - Gorchymyn Risg Rhywiol;
  - gwaharddeb sifil;
  - Gorchymyn Ymddygiad Troseddol.
- 29.** Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu estyn y meini prawf anghymhwysio ar gyfer **y ddwy drosedd gyntaf** yng Nghymru, ond nid gwaharddebau sifil a Gorchymynion Ymddygiad Troseddol.

### **3.10. Adran 26 a 27: Disgresiwn Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau treialu a chanllawiau ar gyfer etholiadau**

- 30.** Mae materion etholiadol bellach wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod sawl diwygiad etholiadol wedi'i gynnig, fod "angen mwy o gynlluniau peilot etholiadol er mwyn llunio'r diwygiadau hyn."
- 31.** Mae adran 26 o'r Bil yn cynnig rhoi pwerau disgresiwn i Weinidogion Cymru "gyfarwyddo Swyddog Canlyniadau, Swyddog Canlyniadau Etholiadol neu awdurdod lleol (lle y bo'n briodol) i gynnal cynllun peilot etholiadol penodol mewn etholiad llywodraeth leol." Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y pŵer yn darparu'r gallu i'w gwneud yn ofynnol bod Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnal cynllun treialu "pan na fydd unrhyw wirfoddolwyr yn camu ymlaen."

- 32.** Gallai cynlluniau treialu gynnwys opsiynau fel **cyfrif electronig, gorsafodd pleidleisio symudol** a **chynnwys ffotograffau ar bapurau pleidleisio**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai cynlluniau peilot "yn darparu tystiolaeth ynghylch pa fath o ddiwygiadau etholiadol fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y ganran sy'n pleidleisio, a gwella hygyrchedd".
- 33.** Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi y "bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu'r holl gostau sydd ynghlwm â'r cynlluniau peilot". Mae'n parhau drwy nodi y "bydd dadansoddiad manwl o'r costau tebygol yn cael ei gynnal cyn i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd" i dreialu systemau eraill ar gyfer pleidleisio neu gyfrif pleidleisiau.

### **3.11. Adran 28: Talu am wariant swyddogion canlyniadau**

- 34.** Caiff swyddogion canlyniadau eu penodi o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac maent yn gyfrifol am gynnal etholiadau yn eu hardaloedd. Y swyddog canlyniadau fel arfer, ond nid bob tro, yw prif weithredwr y cyngor. Mae dyletswyddau swyddog canlyniadau ar wahân i ddyletswyddau swyddog llywodraeth leol. Felly caiff swyddogion canlyniadau hawlio "ffi" am eu gwasanaethau wrth gynnal etholiad "gan y corff sy'n gyfrifol am ariannu'r etholiadau".
- 35.** Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ceisio egluro mai dim ond treuliau a ysgwyddwyd yn briodol wrth gynnal etholiad llywodraeth leol y caiff swyddogion canlyniadau eu hawlio, ond nid y "ffioedd personol mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd". Mae hyn o ganlyniad i'r hyn a nodir gan Lywodraeth Cymru fel "cryn dipyn o sylw cyhoeddus" a roddwyd "i lefel y cyflogau sy'n daladwy i uwch weision sifil".

## 4. Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Rhoddwyd pwerau a dyletswyddau i lywodraeth leol dros gyfnod o amser ac, o'r herwydd, nid ydynt wedi'u pennu mewn unrhyw un darn o ddeddfwriaeth. Mae swyddogaethau llywodraeth leol, felly, wedi'u cyfyngu gan ddeddfwriaeth.

Mae darpariaethau deddfwriaethol, megis y pwerau llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wedi mynd peth ffordd i roi rhywfaint o hyblygrwydd i brif gynghorau i weithredu mewn ffordd a fyddai, yn eu barn nhw, "yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal".

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "canfyddiad bod y pŵer llesiant yn rhy gyfyngedig", ac nad yw wedi "grymuso awdurdodau i arloesi neu gymryd camau a fyddai'n gwneud mwy i drawsnewid eu dulliau gweithio". Gallai hyn fod rhag ofn y byddai canfyddiad iddynt weithredu y tu allan i gwmpas y pŵer.

Mae'r Bil, felly, yn rhoi **pŵer cymhwysedd cyffredinol** i brif gynghorau (a chynghorau cymuned cymwys). Ei nod yw "sicrhau llywodraeth leol mwy effeithiol, galluog ac arloesol".

Mae'n golygu **na fydd yn rhaid i gynghorau cymhwysol mwyach bennu pŵer penodol** er mwyn ymgymryd â gweithgaredd penodol. Yn lle hynny, byddant mewn sefyllfa "lle rhagdybir bod modd iddynt wneud rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn atal hynny".

## 4.1. Pennod 1: Y Pŵer Cyffredinol

### 4.2. Adran 31: Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol

**36.** Mae adran 31 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol (prif gynghorau) cymhwysol “wneud unrhyw beth y caiff unigolion yn gyffredinol ei wneud”. Bydd hyn, yn ôl y Nodiadau Esboniadol, yn galluogi prif gynghorau i “weithredu mewn ffyrdd dyfeisgar, hynny yw, gwneud pethau sy'n wahanol i unrhyw beth y maent hwy, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, wedi ei wneud o'r blaen.”

**37.** Mae is-adrannau (2) a (3) yn diffinio rychwant y pŵer ymhellach, gan nodi nad oes angen i awdurdod ymarfer y pŵer i fod o fudd i'r awdurdod, ei ardal na'i drigolion. Mae is-adran 2(a) hefyd yn rhoi'r canlynol i awdurdodau cymwys:

- pŵer i'w wneud yn unrhyw le yng Nghymru neu yn rhywle arall.

**38.** Mae is-adran (2)(b) yn rhoi pŵer i awdurdodau cymwys wneud gweithgareddau at ddiben masnachol neu fel arall am **ffi**, neu **heb fod am ffi**.

### 4.3. Adran 32: Terfynau'r pŵer cyffredinol

**39.** Rhwyd ddiogelwch yw adran 32 i bob pwrpas, sy'n sicrhau nad yw awdurdodau cymwys yn osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'n rhaid i brosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol fod yn “rhesymol a chydymffurfio ag egwyddorion y gyfraith gyhoeddus”.

**40.** Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol fod y risg i wasanaethau craidd (h.y. ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol) yn “gyfyngedig oherwydd gwaharddiadau mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes”, sy'n cyfyngu ar weithgareddau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'n ddiamwys na ellid defnyddio'r pŵer cyffredinol yn y fath fodd fel y gallai roi rhai gwasanaethau craidd mewn perygl yn y dyfodol.

### 4.4. Adran 33: Cyfyngiadau ar godi ffi

**41.** Mae adran 33 yn rhoi'r gallu i awdurdod cymwys godi ffi am ddarparu gwasanaeth, ond dim ond os yw rhai amodau'n cael eu bodloni. Ni chaiff awdurdod godi ffi am wasanaeth os yw o dan ddyletswydd statudol i'w ddarparu.

**42.** Mae is-adran (4) yn cyfyngu ar allu awdurdod cymwys i wneud elw mewn unrhyw flwyddyn ariannol wrth ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i godi ffi am wasanaeth, ac eithrio “mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir at ddiben

masnachol”.

#### 4.5. Adran 34: Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben masnachol

**43.** Wrth ymgymryd â gweithgaredd masnachol o dan y pŵer cyffredinol, rhaid i'r awdurdod cymhwysol sefydlu cwmni fel y'i diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd yn y Memorandwm Esboniadol, ni chaiff ymgymryd â gweithgaredd masnachol “oni bai bod y gweithgaredd yn un y gallai'r awdurdod hefyd ei wneud at ddiben anfasnachol”.

**44.** Yr enghraifft a roddir yn y Memorandwm Esboniadol yw canolfan ailgylchu awdurdod lleol sy'n cael ei rhedeg at ddibenion anfasnachol. Fodd bynnag, os oes capasiti ychwanegol yn y ganolfan ailgylchu, gallai'r awdurdod ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i “werthu gwasanaethau ailgylchu i awdurdodau cyfagos neu sefydliadau eraill”.

#### 4.6. Adran 35: Pwerau i wneud darpariaeth atodol

**45.** Yn unol â'r adran hon, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddileu neu newid darpariaethau statudol y maent yn meddwl eu bod “yn atal neu'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol cymhwysol i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol”.

**46.** Yn yr un modd, mae is-adrannau (3) a (4) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfyngu ar yr hyn y caiff awdurdod lleol cymhwysol ei wneud o dan yr un pwerau.

**47.** Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol yn cyfeirio at unrhyw ddadansoddiad cost i lywodraeth leol o gyflwyno'r pŵer hwn, gan ei fod yn cael ei ystyried yn ‘bŵer galluogi’. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi y gallai awdurdodau lleol cymhwysol **fynd i gostau** os byddan nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd o dan y pŵer newydd. Bydd angen i awdurdodau unigol ystyried y rhain fesul achos er mwyn sicrhau bod y manteision yn drech na'r costau.

#### 4.7. Pennod 2: Cyngorau Cymuned Cymwys

**48.** Mae tua 735 o gynghorau cymuned a thref (“cynghorau cymuned”) yng Nghymru, ac maent yn atebol i'w hetholwyr lleol am ddarparu ystod eang o wasanaethau. Yn ôl Llywodraeth Cymru, gallai grymuso cynghorau cymuned cymwys sydd â phŵer cymhwysedd cyffredinol “eu galluogi i fod yn uchelgeisiol ac yn arloesol”.

**49.** O ganlyniad i'r darpariaethau newydd, bydd **Pennod 9, Rhan 7 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** yn cael ei diddymu. Roedd y darpariaethau

ym Mesur 2011 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol yn amodol ar fodloni meini prawf penodol. Ni ddefnyddiwyd y darpariaethau yn y Mesur erioed.

- 50.** Er mwyn i gyngor cymuned fod yn gymwys i arfer y pŵer cyffredinol, byddai angen iddo “fodloni safonau uwch o safbwynt llywodraethiant a rheolaeth ariannol, gallu proffesiynol a mwy o atebolrwydd democrataidd”.
- 51.** Bydd y darpariaethau yn y Bennod hon, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod cyngorau cymuned “yn gallu ymdopi â'r heriau presennol yn ogystal â heriau'r dyfodol”. Bydd hefyd yn cryfhau democratiaeth leol, tryloywder ac atebolrwydd, ac mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd hynny'n annog mwy o bobl i “gymryd rhan er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer eu hardal leol”.

#### 4.8. Adran 37: Dod yn gyngor cymuned cymwys

- 52.** Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir ystyried bod cyngor cymuned yn gymwys i gael y pŵer cyffredinol.
- 53.** Mae'r meini prawf allweddol wedi'u nodi yn is-adrannau (2) i (4):
- (2) rhaid bod o leiaf **ddau draean** o'r cyngor cymuned wedi cael eu hethol;
  - (3) rhaid bod clerc y cyngor yn dal unrhyw **gymhwyster** y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy reoliadau;
  - (4) rhaid bod y cyngor hefyd wedi derbyn barn “ddiamod” gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar **gyfrifon diweddaraf y cyngor**, yn ogystal ag ar y cyfrifon a oedd yn union yn eu rhagflaenu.
- 54.** Dim ond ar ôl bodloni'r meini prawf y gall cyngor cymuned basio penderfyniad ei fod yn gyngor cymwys. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai cyngorau cymuned nad ydynt yn gallu bodloni'r amodau ar unwaith yn gallu “ymdrechu i fodloni'r amodau yn y dyfodol”. Fodd bynnag, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyngorau cymuned fod yn rhagweithiol o ran bodloni'r amodau.
- 55.** Y prif oblygiadau i gyngorau cymuned o ran costau yn sgil y darpariaethau yw'r gost o hyfforddi a chymhwyso clercod. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) “ers rhai blynnyddoedd i hybu, gweinyddu a darparu hyfforddiant ar CiLCA [Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol] i glercod yng Nghymru”. Rhagwelir y byddai cymhwyster o'r fath yn cael ei bennu gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

**56.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai cyfanswm cost pob cymhwyster yw £700. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai o leiaf 350, ac uchafswm o 550, o glercod presennol yn ceisio ennill y cymhwyster.

**57.** Yr isafswm cost a ragwelir ar gyfer cynghorau cymuned yn ystod y tair blynedd gyntaf fyddai £245,000, gydag uchafswm cost o £385,000 yn ystod y cyfnod hwnnw.

#### **4.9. Adran 38-40: Parhau i fod yn gyngor cymuned cymwys a pheidio â bod yn gyngor cymuned cymwys**

**58.** Mae adran 38 yn nodi y bydd angen i gyngor cymuned cymwys basio penderfyniad yn flynyddol yn cadarnhau ei fod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Os bydd yn methu â phasio penderfyniad, bydd yn peidio â bod yn gymwys. Mae adran 39 hefyd yn galluogi cyngor cymuned, mewn unrhyw gyfarfod, i basio penderfyniad i beidio â bod yn gymwys.

**59.** Mae adran 40 yn darparu y caiff unrhyw weithgaredd y mae cyngor cymuned cymwys yn ymrwymo iddo, sy'n dibynnu ar y pŵer cyffredinol, barhau, hyd yn oed os nad yw'n gyngor cymwys mwyach.

#### **4.10. Adran 41: Cynghorau cymuned cyffredin a sefydlir ar ôl i'r Ddeddf hon gael ei phasio**

**60.** Mae hon yn ddarpariaeth benodol sy'n ymwneud â chynghorau cymuned cyffredin a gaiff eu sefydlu ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio. Gall cyngor cymuned cyffredin newydd fodloni'r meini prawf cymhwysedd sy'n ymwneud ag aelodau etholedig a chlerc cymwys ar unwaith. Mae hefyd yn bosibl bod rhai o'i rannau cyfansoddol yn gynghorau cymwys cyn i'r cyngor cymuned cyffredin newydd ffurfio. Fodd bynnag, ni fyddai'n bodloni'r amod o fod angen archwiliad diamod ar gyfer dwy farn ddiweddaraf Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**61.** Er mwyn peidio â chymell ffurfio cynghorau cymuned cyffredin, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i **ddatgymhwyso'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn 37(4)** mewn rhai achosion. Pe bai gan o leiaf hanner y cymunedau sydd wedi'u grwpio gyngor cymuned a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn 37(4) yn union cyn iddynt gael eu grwpio, ni fyddai angen iddo fodloni'r amod hwn.

#### **4.11. Adran 44: Diwygiadau mewn perthynas â'r bennod hon**

**62.** Mae Atodlen 3 yn diddymu'r pŵer llesiant yn adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn llawn. Mae hefyd yn diwygio adran 93 (y pŵer i fasnachu) ac adran 95 (y pŵer i godi tâl am wasanaethau disgresiynol) o fewn Deddf 2000. Ni fyddai angen y pwerau hyn mwyach yn ôl Llywodraeth Cymru, gan y bydd pŵer

cymhwysedd cyffredinol gan awdurdodau cymhwysol.

- 63.** Fodd bynnag, wrth ddiddymu'r pŵer llesiant yn llawn, ni fydd cynghorau cymuned nad ydynt wedi penderfynu eu bod yn gymwys ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, yn gallu arfer yr un pŵer. Rhesymeg Llywodraeth Cymru yw y gallai cael mwy nag un pŵer cyffredinol yn y gyfraith "ychwanegu at y dryswch presennol" yn y sector ynghylch y pwerau sydd ar gael iddynt. Mae'r Nodiadau Esboniadol hefyd yn nodi y gallai cadw'r pŵer llesiant gyfyngu ar y "cymhelliad i gynghorau cymuned a thref fodloni'r meini prawf cymhwysra" ar gyfer pŵer cymhwysedd cyffredinol.



## 5. Rhan 3 – Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol

Diben ac effaith fwriadol Rhan 3 o'r Bil yw annog mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad mewn democratiaeth leol ymhlith ystod fwy amrywiol o'r cyhoedd.

Bydd y ddarpariaeth yn y Bil **yn ei gwneud yn ofynnol** i brif gynghorau “annog y cyhoedd i gymryd rhan yn eu gweithdrefnau penderfynu a chraffu.”

Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion sy'n ymwneud â darlledu cyfarfodydd cyngor, aelodau'r cyngor sy'n mynychu o bell a chyfleoedd i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd.

### 5.1. Adrannau 46-48: Dyletswydd i annog cyfranogiad

**64.** Mae'r darpariaethau yn adrannau 46 i 48 yn rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan ym mhroses benderfynu'r cyngor. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'i ddyletswyddau, gan gynnwys:

- sut y mae'n bwriadu hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor gyda'r cyhoedd;
- hybu gwybodaeth am sut i ddod yn aelod o'r cyngor neu awdurdod cysylltiedig;
- hwyluso mwy o fynediad at wybodaeth i aelodau o'r cyhoedd;
- darparu ffyrdd i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i brif gynghorau.

**65.** Er bod y meysydd y mae'n rhaid i gyngor eu cynnwys yn ymwneud yn bennaf â hwyluso a hybu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, mae adran 47, is-adran (2)(f) yn rhoi dyletswydd arno i hybu ymwybyddiaeth o'r manteision i aelodau'r cyngor ac aelodau awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor hwn, *Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol*, argymhellodd y Pwyllgor:

Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, yn mynd i'r afael ar fyrder â diffygion mewn canllawiau ar gyfer cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr ar yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol a'r hyn nad yw'n dderbyniol.

**66.** Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol yn amcangyfrif mai **£11,544** fydd y gost flynyddol i bob prif gyngor hybu democratiaeth yn rhagweithiol. Cyfanswm y

gost amcangyfrifedig i'r holl gynghorau fydd **£254,000 y flwyddyn**. Dim ond am bedair blynedd, rhwng 2022 a 2026, y bydd y gost reolaidd hon. Caiff effaith hyn ei gwerthuso yn 2026-27.

**67.** Yn ogystal â chost hybu democratiaeth yn rhagweithiol, bydd angen i brif gynghorau baratoi a llunio strategaeth, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £13,104 fesul cyngor. Mae hyn yn cyfateb i £288,000 ar draws pob un o'r 22 o brif gynghorau ar gyfer 2022-23. Mae tablau 18 ac 19 o'r Memorandwm Esboniadol fel y'u cyflwynwyd, yn cynnwys manylion am oblygiadau ariannol y prif ddyletswyddau newydd i brif gynghorau.

## 5.2. Adran 49: Dyletswydd i wneud cynllun deisebau

**68.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bob prif gyngor i sefydlu cynllun deisebau. Ar hyn o bryd, dim ond rhai prif gynghorau sydd wedi sefydlu cynllun deisebau yn eu hardal. Yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai'r ddyletswydd yn sicrhau bod pob prif gyngor yn mynd ati'n "rhagweithiol i reoli ac ymateb i ddeisebau". Mae'n rhaid i brif gyngor nodi sut y gellir cyflwyno deiseb, y camau y bydd y cyngor yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb, a pha gamau, os o gwbl, y bydd yn eu cymryd.

**69.** Mae'r ddarpariaeth hefyd yn caniatáu i brif gynghorau sefydlu cynllun deisebau electronig, ond nid oes rhwymedigaethau arnynt i wneud hynny.

**70.** Fel rhan o'r diwygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diddymu pleidleisiau cymunedol (gweler adran 158 ac Atodlen 12 o'r Bil hwn). Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai diddymu pleidleisiau cymunedol yn "golygu bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at ddeisebau yn gynt ac yn haws, a gallai hyn, maes o law, gael effaith ar y ffordd y mae prif gyngor yn gwneud penderfyniadau."

**71.** Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r adran hon yn ymwneud â pharatoi, rheoli ac adolygu cynlluniau deisebau. Rhagwelir y bydd cost untro o £3,029 fesul cyngor (£67,000 ar draws pob un o'r 22 o gynghorau) ar gyfer paratoi cynllun deisebau. Byddai'r gost o reoli a monitro'r cynllun deisebau yn cyfateb i oddeutu £8,000 y flwyddyn i bob cyngor (£176,000 ar draws pob un o'r 22 o gynghorau).

**72.** Er nad yw'n ofynnol i brif gynghorau sefydlu cyfleuster e-ddeiseb, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y mwyafrif yn gwneud hynny. Pe bai cynghorau'n sefydlu system e-ddeisebau annibynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif mai tua £12,500 fydd y gost, ac mai £4,000 fesul awdurdod fydd y gost flynyddol barhaus i gynnal y system honno. (Gweler Tabl 26 o'r Memorandwm Esboniadol, fel y'i cyflwynwyd, am ragor o fanylion).

### 5.3. Adran 50: Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol

- 73.** Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar *Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol* fod Llywodraeth Cymru “yn egluro i awdurdodau lleol na ddylai fod yn ofynnol i aelodau gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr awdurdod”.
- 74.** Mae adran 50 o'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Dywed y Memorandwm Esboniadol y dylai “pobl leol fedru cyrraedd at aelodau etholedig yn rhwydd”, ond y dylai aelod o'r cyngor, pe dymunai, allu “gwarchod preifatrwydd ei gyfeiriad cartref.” Mae'r ddarpariaeth yn gosod dyletswydd ar gynghorau i gyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post y gellir anfon gohebiaeth at gyfer yr aelod iddynt.
- 75.** Fodd bynnag, dim ond yn y Nodiadau Esboniadol y gwneir yn glir y caiff cyfeiriad yr aelod etholedig fod yn **gyfeiriad swyddogol** yn hytrach na chyfeiriad cartref yr aelod.

### 5.4. Adran 52: Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad

- 76.** Mae dyletswydd eisoes ar brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi cyfansoddiad, sy'n cynnwys rheolau sefydlog a chodau ymddygiad. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth, yn ôl y Nodiadau Esboniadol yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i “ddiweddaru” ei gyfansoddiad, a pharatoi a chyhoeddi arweiniad i'r cyfansoddiad sy'n “egluro cynnwys eu cyfansoddiad mewn **iaith gyffredin**”.

### 5.5. Adran 53: Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol

- 77.** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad statudol ar brif gynghorau i ddarlledu cyfarfodydd cyngor. Felly y cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, sydd i benderfynu a ddylid darparu'r cyfleuster hwnnw i'r cyhoedd. Credir bod 18 o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ar hyn o bryd yn darlledu rhai neu'r cyfan o'u cyfarfodydd trwy gyfrwng gweddarllediad.
- 78.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol ei bod yn credu “y dylai pobl allu gwyllo cyfarfodydd cyngor ar unrhyw adeg.” Mae adran 53, felly, yn gosod gofyniad ar brif gynghorau i ddarlledu'r **holl gyfarfodydd cyhoeddus** (gan gynnwys cyfarfodydd is-bwyllgorau) a sicrhau eu bod ar gael am “gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod.”
- 79.** Yn ogystal, mae'r adran hon yn rhoi darpariaethau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn darlledu cyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

- 80.** Yn 2012-13, sefydlodd Llywodraeth Cymru grant o £40,000 i annog prif gynghorau i ddarlledu cyfarfodydd cyngor a gwella cyfranogiad y cyhoedd.
- 81.** Mae trafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru, prif gynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth darlledu wedi nodi'r posibilrwydd o lunio **un contract ar gyfer Cymru.** Amcangyfrifwyd mai'r gost am "becyn darlledu cyfartalog" yw **£12,000 y flwyddyn** i bob cyngor yng Nghymru.
- 82.** Byddai hyn yn cyfateb i **£264,000** fel cost flynyddol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Nid yw'r crynodeb o'r costau yn nhabl 36 yn ystyried cynnydd posibl mewn prisiau na chwyddiant.

## 5.6. Adran 54: Amodau o ran aelodau o awdurdodau lleol yn mynychu o bell

- 83.** Mae **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** yn gwneud darpariaethau i ganiatáu i brif gynghorau hwyluso'r trefniadau i aelodau fynychu o bell.
- 84.** Clywodd y Pwyllgor, fel rhan o'i ymchwiliad i *Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol*, fod y ddarpariaeth, fel yr oedd, yn rhy gyfyng ei natur. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'r ymchwiliad:
- "the intention was very positive, in that it allowed members, potentially, to dive into a meeting from home, and potentially use Skype. Unfortunately, Skype wouldn't be allowed through the law as it stands."
- 85.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tynnu sylw at nifer o faterion posibl i'w goresgyn a phryderon yn y sector ynghylch pa mor ymarferol fyddai mynychu cyfarfodydd o bell. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith materion eraill, y risg o golli cysylltiad, ac felly'r cyfle i bleidleisio. Mae awgrym hefyd bod contractwyr "wedi bod yn gyndyn o geisio darparu ar gyfer mynediad o bell oherwydd yr heriau technegol sy'n codi".
- 86.** Er gwaethaf rhai o'r problemau posibl, mae Llywodraeth Cymru yn gweld mynychu o bell "yn ddiwygiad pwysig, yn arbennig o ran annog amrywiaeth".
- 87.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y bydd y gost i brif gynghorau yn amrywio yn dibynnu ar y trefniadau a roddir ar waith. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y "byddai cost flynyddol gyffredinol o £10,000 i bob prif gyngor yn swm realistig". Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r gost i hwyluso trefniadau mynychu o bell yn cael ei gwrthbwyso gan arbedion a wneir wrth leihau'r angen i aelodau deithio i gyfarfodydd.

## 5.7. Adran 55: Cyfranogi yng nghyfarfodydd cyngorau cymuned

**88.** Ar hyn o bryd, nid oes rhwymedigaeth statudol ar gyngorau cymuned i ganiatáu cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd, er y bydd llawer yn darparu amser i aelodau o'r cyhoedd siarad.

**89.** Mae adran 55 yn diwygio Rhan 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i ddarparu bod yn rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod cyngor cymuned:

“must be given **reasonable opportunity** to make representations about any items of business due to be discussed at the meeting”.

**90.** Nid yw'r Nodiadau Esboniadol yn ceisio diffinio 'cyfle rhesymol' yn y cyddestun hwn. Fodd bynnag, mae'n rhoi i'r sawl sy'n cadeirio “ddisgresiwn eang i benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfle rhesymol, ond bydd rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau ynglŷn â'r mater a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.”

## 5.8. Adran 57: Adroddiadau Blynyddol gan Gyngorau Cymuned

**91.** Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth statudol sy'n nodi ei bod yn ofynnol i gyngor cymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol. Yn ei adroddiad yn 2018, argymhellodd y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref y:

“dylai'r holl Gyngorau Cymuned a Thref baratoi adroddiad blynyddol a hwnnw'n nodi eu cynnydd hyd yma a'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.”

**92.** Mae adran 57 yn gosod dyletswydd ar bob cyngor cymuned i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol. Dylai'r adroddiad nodi ei flaenoriaethau, ei weithgareddau a'i gyflawniadau yn ystod y flwyddyn. Dylid ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

**93.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai'r fantais o gyhoeddi adroddiadau blynyddol yw y byddant yn “creu mwy o ddiddordeb a dealltwriaeth o fanteision gwell ymgysylltu ac atebolrwydd”. Mae'n nodi y “gall hyn arwain at gynnydd mewn cyfranogiad gan gymunedau lleol”.

**94.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio bod yna “nifer o ffactorau” a allai effeithio ar gostau cyngorau cymuned wrth baratoi adroddiad blynyddol. Mae hyn yn cynnwys yr ystod o swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd gan bob cyngor cymuned a maint y cyngor. Fodd bynnag, mae'r gost graidd i'r cyngor yn ymwneud ag adnoddau clerod.

**95.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhai costau amcangyfrifedig eang ar gyfer llunio adroddiadau blynyddol yn seiliedig ar faint y boblogaeth yn ardal y

cyngor cymuned. Ceir y manylion yn Nhabl 41 o'r Memorandwm Esboniadol fel y'i cyflwynwyd.

- 96.** Gallai cyfanswm cost y sector cynghorau cymuned fod hyd at **£175,000** ym Mlwyddyn 1 (2020-21). Amcangyfrifir y bydd adroddiadau dilynol yn cymryd hyd at 60 y cant yn llai o amser ar ôl y flwyddyn gychwynnol.

## 6. Rhan 4 – Gweithrediaethau, aelodau, swyddogion a phwyllgorau awdurdodau lleol

Mae Rhan 4 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ystod eang o faterion, gan gynnwys penodi prif weithredwyr prif gynghorau a rheoli eu perfformiad

Mae yna hefyd ddarpariaethau ar gyfer ehangu'r cyfleoedd i rannu swyddi ar gyfer arweinwyr gweithredol ac aelodau'r weithrediaeth, ac ar gyfer penodi cynorthwywyr i'r weithrediaeth. Nod y darpariaethau yw cryfhau a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r pwyslais yn y rhan hon o'r Bil ar wella safonau, gan roi mwy o gyfrifoldeb ar arweinwyr gwleidyddol i hybu a chynnal "safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'u grwpiau".

### 6.1. Adrannau 59-62: Penodi prif weithredwr, rheoli perfformiad a chydnabyddiaeth ariannol

- 97.** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ddynodi swyddog yn 'bennaeth gwasanaeth taledig'. Disgrifir y swyddog hwn yn aml fel y prif weithredwr neu'r rheolwr-gyfarwyddwr. Mae'r rhan hon o'r Bil yn ceisio sicrhau cysondeb o ran diffiniad ac eglurder ynghylch dyletswyddau prif weithredwr. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau benodi prif weithredwr.
- 98.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Memorandwm Esboniadol nad yw dyletswyddau a chyfrifoldebau'r 'pennaeth gwasanaeth taledig' wedi'u diffinio'n gyson, nac yn glir. Weithiau, yn ôl Llywodraeth Cymru, gall hyn beri problemau, yn enwedig o ran y "berthynas rhwng y pennaeth gwasanaeth cyflogedig ac aelodau etholedig."
- 99.** Mae adran 60 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoli perfformiad prif weithredwyr. Mae'n gosod dyletswydd ar y 'prif aelod gweithredol' (arweinydd neu faer) i baratoi a chyhoeddi trefniadau ar gyfer "rheoli perfformiad prif weithredwr y cyngor".
- 100.** O dan y darpariaethau fel y'i nodwyd, bydd yn ofynnol i'r prif aelod gweithredol gynnal adolygiad ac ysgrifennu adroddiad yn dilyn yr adolygiad. Byddai angen i'r prif aelod gweithredol ymgynghori â'r prif weithredwr ar gynnwys adroddiad o'r fath ac anfon copi at y prif weithredwr ac aelodau'r

cyngor. Mater i'r cyngor yw cyhoeddi'r adroddiad llawn, rhan o'r adroddiad neu grynodeb ohono.

- 101.** Mae adran 62 yn mewnosod darpariaeth ar gyfer ailystyried cydnabyddiaeth ariannol yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cydnabyddiaeth ariannol prif weithredwr cyngor yn 'anghyson' ag argymhelliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ni chaniateir dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Rhaid iddo gael ei wneud gan y **cyngor llawn**.

## 6.2. Adran 63: Penodi cynorthwywyr gweithrediaeth

- 102.** Nid yw cyfraith llywodraeth leol yn cydnabod unrhyw fath o benderfynwr gweithredol is sy'n cyfateb i ddirprwy weinidog neu is-weinidog. Mae rhai awdurdodau, yn ôl Llywodraeth Cymru yn ei Memorandwm Esboniadol, "wedi arbrofi â'r dull hwn eisoes".
- 103.** Ar hyn o bryd, ni all unrhyw un a benodir i rôl anstatudol o'r fath arfer unrhyw swyddogaethau statudol na derbyn cyflog uwch. Fodd bynnag, maent yn dal yn gymwys i wasanaethu ar bwyllgorau craffu cyngorau.
- 104.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ffurfioli gallu gweithrediaeth i benodi cynorthwywyr, a all, mewn rhai amgylchiadau, weithredu ar ran y weithrediaeth. Ni fyddai'r cynorthwydd yn aelod o'r weithrediaeth, fodd bynnag.
- 105.** Y rhesymeg dros y ddarpariaeth yw y gallai gynyddu amrywiaeth y cyngorwyr sy'n gwneud penderfyniadau. Byddai'r rôl yn "llai beichus" na rôl aelod gweithredol amser llawn, gan ddarparu cyfleoedd i "gyngorwyr llai profiadol ac o bosibl y rheini a chanddynt rwymedigaethau gofalu neu gyflogaeth."
- 106.** Fodd bynnag, mater i'r cyngor yw penderfynu ar nifer y cynorthwywyr y gellir eu penodi, eu tymor yn y swydd a'u cyfrifoldebau. Mae **Cyfansoddiad Cyngor Caerdydd** er enghraifft, yn cynnwys disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau cynorthwywyr i Aelodau'r Cabinet.
- 107.** Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn nodi mai mater i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw pennu cyflogau aelodau a'r weithrediaeth. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi ei bod yn "bosibl y gallai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol benderfynu y dylai cynorthwywyr i'r weithrediaeth dderbyn cyflog uwch, fel yr hyn a delir i aelod gweithredol."



### 6.3. Adran 64: Rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth

- 108.** I ryw raddau, mae rhannu swyddi ymhlith aelodau'r weithrediaeth wedi bod yn bosibl ers cryn amser. Fodd bynnag, roedd y trefniadau gweithredol a ddaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod cyfyngiadau ar nifer yr aelodau y gellir eu penodi i'r weithrediaeth. Mae hyn wedi cyfyngu'r cyfleoedd i arweinwyr gweithredol benodi ar sail rhannu swydd.
- 109.** Er mwyn annog a hwyluso amrywiaeth yn swyddogion gweithredol y cyngor, mae adran 64 yn cyflwyno Atodlen 7 i'r Bil, sy'n diwygio Deddf 2000. Mae'n darparu ar gyfer cynnydd yn nifer uchaf aelodau gweithredol o 10 i 12 (pan fydd o leiaf ddau yn cael eu hethol i rannu swydd) neu 13 (pan fydd o leiaf dri wedi'u hethol i rannu swydd).
- 110.** Yr unig enghraifft ddiweddar o rannu swydd ar lefel aelod gweithredol yng Nghymru oedd yng Nghyngor Abertawe. Ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar *Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol*, **ysgrifennodd** y cynghorwyr a oedd yn rhannu swydd at y Pwyllgor yn mynegi cefnogaeth i'r argymhelliad, ond hefyd i ddarparu cyd-destun, cefndir, ac i dynnu sylw at yr heriau i'w goresgyn.
- 111.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod "gwella maint y weithrediaeth, er mwyn sicrhau bod modd i aelodau nad ydynt yn gallu ymrwymo yn llawnamser i swydd o'r fath gymryd rhan yn debygol o arwain at arweinyddiaeth cyngor sy'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei chynrychioli yn well."

### 6.4. Adran 66: Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol

- 112.** Mae adran 66 yn diwygio Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gan ddileu uchafswm yr wythnosau o hawl i absenoldeb teuluol i aelodau awdurdodau lleol (26 wythnos ar hyn o bryd).
- 113.** Mae'r adran hon hefyd yn darparu ar gyfer pennu'r cyfnod hwyaf o absenoldeb mewn rheoliadau. Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth i bolisi ddatblygu yn y maes hwn.

### 6.5. Adran 67: Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad

- 114.** Roedd Rhan 3 o Ddeddf 2000 yn sefydlu "fframwaith statudol i hybu a chynnal safonau ymddygiad moesegol uchel gan aelodau a gweithwyr 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru." Diffinnir awdurdodau perthnasol fel prif gynghorau a chynghorau cymunedol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

- 115.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru – *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*. Yn y Papur Gwyn, soniwyd fod angen i gynghorau fod yn fannau lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu 'croesawu a'u parchu'. Mynegodd bryder hefyd fod diwylliant rhy 'macho' mewn rhai awdurdodau. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, gallai'r math yma o ddiwylliant "atal menywod, yn benodol, rhag sefyll mewn etholiad."
- 116.** Mae'r ddarpariaeth yn adran 67 yn adeiladu ar y darpariaethau presennol yn Neddf 2000. Mae'n gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o fewn prif gynghorau i hybu a chynnal safonau uchel yr aelodau yn eu grŵp. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y ddarpariaeth hon yn arwain at "osgoi niwed i enw da" ac o bosibl yn denu "aelodaeth fwy amrywiol a chynrychioliadol".
- 117.** Mae yna hefyd ddarpariaethau ar gyfer ymestyn swyddogaethau pwyllgorau safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Bydd yn ofynnol hefyd i bwyllgorau safonau lunio adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol gan nodi trosolwg o faterion ymddygiad yn y cyngor. Bydd y darpariaethau, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn sicrhau arfer da ar draws yr holl awdurdodau perthnasol ac yn cyfrannu at safonau ymddygiad moesegol uwch.

## **6.6. Adran 69: Ymchwiliadau penodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

- 118.** Mae adran 69 ac Atodlen 8 y Bil yn darparu eglurder ar ôl diddymu adrannau 60-63 o Ddeddf 2000. Roedd yr adrannau hyn yn ymwneud ag "amryw o faterion ymarferol fel gwrthdaro buddiannau, pwerau i gael a datgelu gwybodaeth ac amddiffyn rhag achosion difenwi."
- 119.** Ni wnaed unrhyw newidiadau o sylwedd i'r gyfraith ond mae'r darpariaethau wedi eu halinio â phwerau'r Ombwdsmon o ran ymchwilio i gamweinyddu a methiant gwasanaethau yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

## **6.7. Adran 71: Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu**

- 120.** Gwnaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddarpariaeth a oedd yn caniatáu i brif gynghorau ffurfio cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu. Bwriad y cyd-bwyllgor oedd ei gwneud hi'n "haws craffu ar drefniadau cyflenwi darparwyr sy'n darparu gwasanaethau mewn mwy nag un sir, neu archwilio materion sy'n croesi ffiniau daearyddol."
- 121.** Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai anaml y

defnyddiwyd y pwerau hyn. Lle cafodd ei ddefnyddio, fe'i sefydlwyd yn aml yn ychwanegol at waith craffu gan gynghorau unigol, yn hytrach nag yn ei le.

- 122.** Mae adran 71 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau i wneud rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau o'r fath lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar draws ardaloedd cynghorau.

### **6.8. Adran 72: Cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned**

- 123.** Nod y ddarpariaeth yw sicrhau bod aelodau a staff cynghorau cymuned yn cael hyfforddiant priodol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai "llond llaw o feysydd craidd, sy'n gyffredin i lywodraethu da ym mhob cyngor cymuned, yn cael eu rhagnodi fel rhai gorfodol i'r cyngor eu hystyried mewn canllawiau statudol." Mae'r meysydd craidd a nodwyd yn cynnwys sefydlu sylfaenol, cod ymddygiad, cyllid a chynllunio.
- 124.** Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr neu staff ymgymryd â hyfforddiant ei hun, dim ond ystyried anghenion hyfforddi cynghorwyr a staff.
- 125.** Bydd y goblygiadau cost i gynghorau cymuned yn dibynnu ar ystod o ffactorau. Fodd bynnag, darparwyd amcangyfrifon eang yn seiliedig ar faint y boblogaeth y mae'r cyngor yn ei gwasanaethu (gweler Tabl 52 o'r Memorandwm Esboniadol fel y'i cyflwynwyd). Cyfanswm cost amcangyfrifedig y sector cynghorau cymuned am baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi yw **£135,000**.

## 7. Rhan 5 – Cydweithio gan brif gynghorau

Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio ar y cyd ar draws nifer o feysydd gwasanaeth. Yn ei adroddiad yn 2014, dywedodd y **Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** (“Comisiwn Williams”) fod y cyd-berthnasau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn “rhy gymhleth”. Dywedodd nad yw'r cymhlethdod hwn “yn gwneud unrhyw les i Gymru”.

Cydnabu Comisiwn Williams fod manteision posibl i gydweithredu, ond nododd ei bod yn rhaid “mai'r rhesymeg sylfaenol dros unrhyw gydweithredu yw **cyflawni gwelliannau**”.

Mae'r Bil hwn, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn darparu mecanwaith newydd ar gyfer agwedd symlach, fwy cydlynus a chyson tuag at gydweithio. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y mecanwaith newydd yn “cefnogi ymdrechion prif gynghorau i ddarparu gwasanaethau'n fwy darbodus, effeithiol ac effeithlon”.

Bydd y darpariaethau'n galluogi creu cydbwyllgorau corfforaethol (ar gyfer dau neu fwy o brif gynghorau) i gyflawni swyddogaethau penodedig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyd-bwyllgorau corfforedig yn cynnig “cyfle hefyd i gysoni nifer o drefniadau cydweithio gwahanol sydd eisoes yn ddeddf, gan leihau'r angen am fyrddau niferus ar wahân ac ati a chan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu byrddau o'r fath”.

### 7.1. Adran 75: Cais gan brif gynghorau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig

**126.** Mae adran 75 yn galluogi dau gyngor neu ragor i wneud cais i Weinidogion Cymru er mwyn sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig. Rhaid i'r cais nodi'r gweithgarwch y mae'r cynghorau'n bwriadu ymgymryd ag ef. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r prif gynghorau os ydynt yn penderfynu gwrthod cynigion i sefydlu cyd-bwyllgor.

### 7.2. Adran 76: Ymgynghori cyn gwneud cais cyd-bwyllgor

**127.** Rhaid i'r cynghorau sy'n ffurfio cyd-bwyllgor corfforedig ymgynghori â'r bobl leol a'r cynghorau cymuned yn eu hardaloedd, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu Fyrddau eraill ardaloedd y cynghorau, ynghyd â phob undeb llafur a gydnabyddir gan Ddeddf 1992.

### 7.3. Adrannau 77-78: Y rheoliadau ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgor a'r amodau sydd i'w bodloni

**128.** Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a nodi'r swyddogaethau sydd i'w trosglwyddo.

**129.** Yr amodau i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau yw:

- bod cais wedi dod i law Gweinidogion Cymru;
- bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r rhai a enwir yn is-adran (3) o adran 78 ar y Rheoliadau drafft;
- bod pob cyngor sy'n gwneud y cais wedi rhoi ei gydsyniad i reoliadau gael eu gwneud.

### 7.4. Adrannau 79-80: Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan na fo cais wedi'i wneud a'r amodau sydd i'w bodloni

**130.** Mae'r darpariaethau yn adrannau 79-80 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig, hyd yn oed os na wnaed cais gan y cynghorau perthnasol. Fodd bynnag, dim ond dan amgylchiadau o'r fath y caiff Gweinidogion Cymru nodi swyddogaethau penodol ar gyfer y cyd-bwyllgorau. Mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- gwella addysg;
- cynllunio strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir;
- trafnidiaeth; a
- datblygu economaidd.

**131.** Rhaid bodloni'r amodau yn adran 80 o'r Bil yn gyntaf, cyn y caiff Gweinidogion Cymru symud ymlaen i ddrafftio rheoliadau. Dywed Llywodraeth Cymru fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod bwriad i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgorau corfforedig yn y meysydd a enwir ar wyneb y Bil, mae'n bwysig nodi **mai'r bwriad yw gweithio gyda llywodraeth leol i gydlunio cyd-bwyllgorau corfforedig**”.

**132.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei bod yn “amhosibl rhagweld a fydd ceisiadau sy'n gofyn i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgor corfforedig yn debygol o ddod i law, pryd y byddant yn debygol o gyrraedd na nifer y cynghorau fydd am gydweithio ym mhob cais.” Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol. I lywodraeth leol, bydd y costau/arbedion posibl “yn debygol o fod yn ystyriaeth bwysig mewn

unrhyw benderfyniad gan ddau brif gyngor neu fwy.”

## **7.5. Adrannau 81-87: Darpariaethau pellach mewn perthynas â chyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau**

**133.** Mae'r adrannau sy'n weddill yn Rhan 5 yn gwneud darpariaethau penodol mewn perthynas â gwneud rheoliadau a'r hyn y caniateir ei gynnwys neu y mae'n rhaid ei gynnwys, diwygiadau a dirymu rheoliadau a darpariaethau atodol. Mae'r darpariaethau atodol yn cynnwys materion fel gofynion ar gyd-bwyllgorau corfforedig i rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru a throsglwyddo staff o brif gynghorau i gyd-bwyllgor corfforedig.

## 8. Rhan 6 – Perfformiad Prif Gyngorau a'u Llywodraethu

Mae **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** yn gosod dyletswydd 'gwella' gyffredinol ar brif gyngorau, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt lunio cynllun gwella. Mae'r cynlluniau, sy'n cael eu hadolygu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, wedi mynd yn un sy'n "canolbwyntio ar brosesau", yn ôl Llywodraeth Cymru, ac yn "tueddu i ganolbwyntio ar weithgarwch neu allbynnau y gellir eu mesur yn rhwydd".

Cyfeiriodd Comisiwn Williams, yn ei **adroddiad** yn 2014, at "amrywiadau ym mherfformiad gwasanaethau" ac "nad oedd y prif systemau, prosesau na'r agweddau dynol ar lywodraethu a chraffu yn gweithio'n ddigon effeithiol i gefnogi a llywio gwelliannau na newidiadau."

Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol mai mater i Archwilydd Cyffredinol Cymru yw penderfynu a yw cyngor "wedi gwella bob blwyddyn, a oes ganddo'r gallu i wella eto ac a ddylai'r prif gyngor neu Weinidogion Cymru gymryd camau."

O dan y darpariaethau yn y Bil, bydd yn ofynnol i brif gyngorau gynnal hunanasesiad blynyddol o'u perfformiad ac adolygiad cyfnodol "a fydd yn rhoi safbwynt allanol, arbenigol ar berfformiad".

Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd lle mae prif gyngorau'n wynebu problemau sylweddol, ac mae'n cynnwys pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru "gynnal arolygiad arbennig".

### 8.1. Adrannau 88 a 90: Dyletswydd prif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus ac i adrodd ar ei berfformiad

**134.** Mae adrannau 88 a 90 yn gosod dyletswydd ar brif gyngorau i adolygu eu perfformiad yn barhaus. Dylai'r adolygiad nodi i ba raddau y mae'r cyngor yn effeithiol o ran arfer ei swyddogaethau, defnyddio adnoddau'n effeithlon a llywodraethu.

**135.** Yn dilyn yr adolygiad o'i berfformiad, rhaid i gyngor lunio adroddiad ar ei gasgliadau. Cyfeirir at yr adroddiad o dan y rhan hon o'r Bil fel 'adroddiad hunanasesu'.

**136.** Disgwylir i gyngorau roi drafft o'r adroddiad i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' sydd newydd ei enwi (gweler adran 114 o'r Bil sy'n ymwneud ag enw a swyddogaethau pwyllgorau archwilio). Caiff y pwyllgor llywodraethu ac archwilio,

wrth adolygu'r adroddiad drafft, argymhell newidiadau iddo. Pan fydd cyngor yn penderfynu peidio â gwneud y newidiadau a argymhellwyd, rhaid iddo roi rhesymau dros ei benderfyniad yn yr adroddiad.

- 137.** Rhaid i'r cyngor gyhoeddi ac anfon yr adroddiad at Archwilydd Cyffredinol Cymru, at Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ('Estyn') a Gweinidogion Cymru. Byddai'r ymarfer hunanasesu cyntaf yn debygol o ddigwydd yn 2020-21.

## **8.2. Adran 89: Dyletswydd i ymgynghori â phobl leol etc. ar berfformiad**

- 138.** Mewn perthynas â drafftio'r adroddiad hunanasesu, bydd dyletswydd ar gynghorau i ymgynghori o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol. Pwrpas yr ymgynghoriad yw ceisio barn ynghylch a yw'r cyngor yn cwrdd â'r gofynion perfformiad.

- 139.** Ymhlith y rhai i ymgynghori â hwy mae pobl leol, personau eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y cyngor, staff y cyngor, a phob undeb llafur a gydnabyddir.

## **8.3. Adrannau 91-93: Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel, ymateb i adroddiad gan banel, a rheoliadau atodol**

- 140.** Bydd yn rhaid i bob prif gyngor benodi panel o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol i asesu perfformiad y cyngor. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod y ddarpariaeth i sefydlu proses banel yn rhoi "cyfle i glywed barn allanol (heblaw barn archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar y modd y mae'r cyngor yn ateb ei ofynion o ran perfformiad."

- 141.** Mae adran 93 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â phenodi paneli, a allai gynnwys nifer yr aelodau i'w penodi ac unrhyw amodau ar gyfer penodi. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer talu ffioedd i aelodau o banel neu mewn perthynas â hwy.

- 142.** Bydd y panel yn cynnal asesiad perfformiad, a bydd yn ofynnol iddo, o dan is-adran (3) o adran 91, ymgynghori â phobl leol, perchnogion busnes, staff y cyngor ac undebau llafur. Dyma'r un rhestr o ymgynghoreion a bennir yn adran 89, y mae'n rhaid i brif gyngor ymgynghori â hwy ar ei berfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn.

- 143.** Rhaid i'r panel lunio adroddiad ar ei gasgliadau ac unrhyw argymhellion o ran camau y mae angen i'r cyngor eu cymryd, gan anfon copi at y cyngor, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn, a Gweinidogion Cymru.

- 144.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd goblygiadau cost oddeutu



**£26,000** ar gyfer “paratoi canllaw ar gyfer cynnal hunanasesiad ac asesiad gan banel.” Bwriad Llywodraeth Cymru yw gweithio gyda llywodraeth leol i baratoi'r canllawiau. Bydd hyn, meddai, yn “sicrhau ei fod yn ateb y gofyn ac yn gwireddu bwriadau polisïau.”

**145.** Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y gofynion i adolygu perfformiad “yn golygu unrhyw gostau newydd arwyddocaol i brif gynghorau. Y cyfan y mae'n ei wneud yw ffurfioli rhywbeth a ddylai eisoes fod yn digwydd.” Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r goblygiadau o ran costau tua **£26,500** fesul awdurdod am asesiad gan banel.

**146.** Mae'r gost yn seiliedig ar brofiad Llywodraeth Cymru o gefnogi cynghorau “i gynnal asesiadau tebyg”.

#### **8.4. Adran 94: Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiad arbennig**

**147.** Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad ('arolygiad arbennig') o brif gyngor os nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried perfformiad cyngor, neu ystyried a ddylid cynnal arolygiad arbennig.

**148.** Cyn penderfynu a ddylid cynnal arolygiad arbennig o brif gyngor, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y cais o dan is-adran (3).

**149.** Mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad ar ganlyniadau arolygiad arbennig, a chynnwys unrhyw argymhellion i'r cyngor neu Weinidogion Cymru weithredu arnynt.

#### **8.5. Adran 95-96: Dyletswydd ar brif gyngor a Gweinidogion Cymru i ymateb i argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**150.** Os yw adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys argymhellion, mae'n rhaid i'r cyngor baratoi ymateb yn nodi pa gamau, os o gwbl, y mae'n bwriadu eu cymryd.

**151.** Rhaid anfon yr ymateb drafft at bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor i'w adolygu. Caiff y pwyllgor argymhell newidiadau i'r ymateb, ond os bydd y cyngor yn gwrthod unrhyw un o'r argymhellion a wnaed, rhaid iddo nodi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw yn ei ymateb terfynol.

**152.** Bydd angen i'r cyngor anfon ei ymateb terfynol at Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gweinidogion Cymru ac Estyn.

**153.** Yn yr un modd, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru, rhaid paratoi ymateb a'i anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn a'r cyngor neu'r cyngorau dan sylw.

## **8.6. Adran 97-100: Pŵer mynediad, arolygu a ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol**

**154.** Mae adran 97 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phŵer Archwilydd Cyffredinol i gynnal arolygiadau arbennig. Yn yr un modd ag unrhyw broses archwilio safonol, rhaid i gyngor ddarparu'r dogfennau sydd ganddo, darparu cyfleusterau a chymorth i arolygwyr Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflawni eu dyletswyddau.

**155.** Mae adrannau 98 a 100 yn ymwneud â materion fel cyfnodau o rybudd i gael mynediad ar gyfer arolygiad, tystiolaeth adnabod, a ffioedd mewn perthynas ag arolygiadau arbennig. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru "ddisgresiwn i godi ffi sy'n wahanol i'r raddfa benodedig" os yw cost arolygiad arbennig "yn sylweddol fwy neu'n sylweddol lai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol."

**156.** Mae adran 99 yn gwneud darpariaethau penodol ynghylch rhwystro arolygydd rhag arfer pwerau o dan adran 97. Mae person sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion yn cyflawni trosedd. Os ceir person yn euog o 'drosedd ddiannod', gallent wynebu dirwy o hyd at £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol – gweler **adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982**).

## **8.7. Adrannau 101-106: Pŵer cyfarwyddo, ymyrryd a chefnogaeth a ddarperir gan Weinidogion Cymru**

**157.** Mae darpariaethau yn yr adrannau canlynol yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cefnogaeth, neu gyfarwyddo prif gyngor i gefnogi prif gyngor arall.

**158.** Mae adran 101 yn darparu fframwaith i Weinidogion Cymru gefnogi a chynorthwyo prif gyngor "er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn cyflawni'r gofynion perfformiad."

**159.** Mae adran 102 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor arall i gynorthwyo'r cyngor a gefnogir i fodloni'r gofynion perfformiad. Bydd lefel y gefnogaeth sydd i'w darparu yn cael ei phennu yn y cyfarwyddyd.

**160.** Mae adran 103 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd. Ar hyn o bryd, o dan Fesur 2009, byddai'n rhaid i awdurdod ofyn am gymorth Gweinidogion Cymru cyn y gallent ymyrryd (**Adran 28 (4)** o

Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009). Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd **heb gais** gan y prif gyngor.

- 161.** Mae adrannau 104-106 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i gymryd camau, i beidio â chymryd camau, neu i roi'r gorau i gymryd camau penodedig. Mae'r darpariaethau yn adran 106 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y caiff swyddogaeth benodedig prif gyngor ei "harfer gan Weinidogion Cymru neu gan berson a enwebir ganddynt."

### **8.8. Adrannau 108-110: Pŵer Gweinidogion Cymru i ychwanegu at restr y bobl y mae'n rhaid anfon adroddiad atynt, i ddiwygio deddfiadau, a dyroddi canllawiau.**

- 162.** Mae'r darpariaethau yn adrannau 108 i 110 yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at wahanol ddibenion. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu personau y mae'n rhaid anfon adroddiad atynt o dan Bennod 1, a diwygio, addasu, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso deddfiadau a fyddai'n atal prif gynghorau rhag cydymffurfio â'r bennod hon.

### **8.9. Adrannau 114 a 115: Enw a swyddogaeth newydd pwyllgorau llywodraethu ac archwilio ynghyd â'u haelodaeth**

- 163.** Mae adran 114 yn diwygio Mesur 2011 mewn perthynas ag enw pwyllgorau archwilio – a fydd yn cael eu galw bellach yn 'bwyllgorau llywodraethu ac archwilio'. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn ychwanegu at swyddogaethau'r pwyllgorau hyn.
- 164.** Dywed y Memorandwm Esboniadol fod "Pwyllgorau Archwilio yn sicrhau cydbwysedd yn nhrefniadau llywodraethu'r prif gyngor" a bod ganddyn nhw ddyletswydd i adolygu a chraffu ar faterion ariannol prif gyngor, y modd y mae'n rheoli risg a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol, ymhlith swyddogaethau eraill.
- 165.** Mae adran 115 yn newid aelodaeth y pwyllgor llywodraethu ac archwilio newydd. Bydd y ddarpariaeth yn **cynyddu nifer yr aelodau lleyg**. Mae Mesur 2011 yn pennu bod yn rhaid i o leiaf ddwy ran o dair o aelodaeth pwyllgor archwilio fod yn aelodau o'r awdurdod, a rhaid i un aelod fod yn lleygwr. Mae'r Bil hwn yn diwygio'r ddarpariaeth ym Mesur 2011 i sicrhau bod **un rhan o dair** o aelodaeth y pwyllgor yn aelodau lleyg. Mae'r Bil hefyd yn mynd gam ymhellach i'w gwneud yn ofynnol bod **Cadeirydd** y pwyllgor newydd **yn aelod lleyg**. Cyn hyn, gallai'r Cadeirydd fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg.
- 166.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, y rhesymeg dros y newid yw bod aelodau lleyg yn dod ag "amrywiaeth o sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau gryfhau'r galluoedd

craffu y gall Pwyllgor Archwilio eu darparu." Yn ei dro, bydd hyn "yn gwella eu gallu i graffu'n gadarn ac yn annibynnol". Yn y Memorandwm Esboniadol sonnir bod yr ymateb gan y cyhoedd i'r ymgynghoriadau diweddaraf ar ddiwygio llywodraeth leol yn gefnogol i newidiadau o'r fath. Roedd yr ymateb gan y sector llywodraeth leol yn llai cefnogol.

- 167.** Mater i brif gynghorau benderfynu yn ei gylch yw maint aelodaeth y pwyllgor llywodraethu ac archwilio a pha mor aml y bydd yn cwrdd.
- 168.** Er na ddisgwylir i swyddogaethau newydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio fod â goblygiadau o ran cost, gallai'r cynnydd yn yr aelodau lleyg achosi costau. Byddai'r brif gost yn ymwneud â hawliadau lwfans gan aelodau lleyg sy'n mynychu cyfarfodydd.
- 169.** Yn ôl y ffigurau presennol, y lwfans cyfartalog ar gyfer aelodau lleyg yw £200 y cyfarfod. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld cost o oddeutu £4,800 y flwyddyn fesul awdurdod. Mae hyn yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, gan gynnwys 4 aelod lleyg ychwanegol ar y pwyllgor a 6 chyfarfod y flwyddyn. Gallai'r gost amrywio yn dibynnu ar faint y pwyllgor a pha mor aml y mae'n cwrdd.

## **8.10. Adrannau 118 a 119: Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr**

- 170.** Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a 'rheoleiddwyr perthnasol' eraill ystyried yr angen am gydgysylltu wrth arfer pob un o'u swyddogaethau. Rhestrir y 'rheoleiddwyr perthnasol' eraill yn Nhabl 1 yn adran 119, ac maent yn cynnwys Estyn a Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 171.** Mae adran 118 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen ar gyfer pob prif gyngor i ddangos pryd y bydd y rheoleiddwyr perthnasol yn arfer eu swyddogaethau. Rhaid i'r rheoleiddwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn cadw at yr amserlen.

## 9. Rhan 7 – Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd

Mae'r ddadl ynghylch strwythur prif gynghorau yng Nghymru wedi bod yn mynd rhagddi ers blynyddoedd lawer. Yn 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Comisiwn Williams i gasglu a darparu asesiad gwrthrychol ar y cynaliadwyedd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac i gynnig y model gorau posibl ar gyfer llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhellodd y Comisiwn y dylai'r ddau awdurdod lleol ar hugain "uno i greu unedau mwy Dylid gwneud hyn drwy uno awdurdodau lleol sy'n bodoli eisoes, nid ail-lunio ffiniau." Yn 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru yr achos dros uno prif gynghorau yn orfodol trwy ymgynghori ar **Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft**.

Amcanion y Bil drafft, yn ôl y Memorandwm Esboniadol drafft, oedd cwblhau rhaglen o uno Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol a sefydlu "fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth llywodraeth leol, llywodraethu cymunedol, atebolrwydd, perfformiad a chyllid." Fodd bynnag, ni chyflwynwyd Bil terfynol fel y bwriadwyd.

Nid yw'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno gorfodol, ond mae'n rhoi cyfle i brif gynghorau uno'n **wirfoddol**. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ailstrwythuro prif gynghorau lle mae cyngor yn "wynebu anawsterau difrifol", ond yn methu â dod o hyd i gyngor arall sy'n barod i uno'n wirfoddol.

### 9.1. Pennod 1 – Uno prif ardaloedd yn wirfoddol

**172.** Yn ystod rhan olaf 2014, gwahoddodd Llywodraeth Cymru'r Pedwerydd Cynulliad brif gynghorau i wneud cynigion ar gyfer uno gwirfoddol. Daeth tri chynnig ymlaen – Blaenau Gwent a Thorfaen, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, a Chonwy a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, gwrthododd y Gweinidog ar y pryd, Leighton Andrews AC, y tri chynnig. Mewn Datganiad Gweinidogol, dywedodd fel a ganlyn:

"Rwyf wedi ystyried pob Datganiad o Ddiddordeb yn ofalus yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Prosbectws. Mae'n siomedig i mi nodi, ar sail yr asesiad hwn, nad wyf wedi fy argyhoeddi bod unrhyw un o'r Datganiadau hyn o Ddiddordeb yn bodloni'r meini prawf yn ddigonol ar gyfer symud ymlaen i baratoi Cynnig Uno Gwirfoddol llawn."

**173.** Yn 2018, cynigiodd Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru – *Cryfhau Llywodraeth*

*Leol: Cyflawni dros ein Pobl* dri opsiwn arfaethedig – uno gwirfoddol, rhaglen uno gynhwysfawr fesul cam erbyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, neu raglen uno gynhwysfawr cyn gynted â phosibl. Yn y Bil hwn, mae Llywodraeth Cymru o blaid galluogi uno gwirfoddol.

- 174.** Mae'r Bil yn caniatáu i gynghorau gynnig uno ar unrhyw adeg, a pheidio â bod yn rhwym i unrhyw fap penodol. Bydd uno, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn rhan o “agenda gyffredin ehangach ar gyfer diwygio megis mwy o gydweithredu a thrawsnewid gwasanaethau”. Dylid ei ystyried “fel arf i gryfhau cadernid a chynaliadwyedd”.
- 175.** Gall Gweinidogion Cymru, trwy'r darpariaethau yn y Bil hwn, roi effaith i uno gwirfoddol trwy reoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol bod y dewis arall yn “weithdrefn hirfaith sydd ynghlwm wrth gyflwyno Bil yn benodol at y diben.”

## 9.2. Adran 120: Ceisiadau i uno

- 176.** Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi prif gynghorau i wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru i ofyn iddynt wneud rheoliadau i uno eu prif gynghorau. Dim ond gyda chaniatâd **cyngor llawn** pob cyngor sy'n gwneud y cais y gellir gwneud ceisiadau.

## 9.3. Adran 121: Ymgynghori cyn gwneud cais i uno

- 177.** Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i ymgynghori ar gais i uno cyn cyflwyno'r cais i Weinidogion Cymru. Mae rhestr o ymgynghoreion wedi'i chynnwys yn yr adran hon, sy'n cynnwys gofyniad yn is-adran 1(h) i ymgynghori â phob prif gyngor arall ar gyfer prif ardal y mae'r cynnig i uno yn debygol o effeithio arni.
- 178.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yn y Nodiadau Esboniadol y gall cynghorau sy'n dymuno cynnal ymgynghoriad ar uno gwirfoddol wneud hynny “cyn i'r adran hon ddod i rym” ac y gallai hyn “fodloni'r gofyniad i ymgynghori”.

## 9.4. Adran 122: Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno

- 179.** Dylai'r canllawiau, sydd i'w paratoi gan Weinidogion Cymru, “ymdrin â materion y bydd angen i brif gynghorau eu hystyried wrth lunio cais”. Mae'r ystyriaethau'n cynnwys manteision uno, unrhyw gostau ac arbedion, ac asesiadau effaith. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

“Mae effaith ôl-weithredol i'r ddarpariaeth hon; bydd unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym yn cael yr un effaith, felly bydd prif gynghorau, os dymunant, **yn gallu dechrau** paratoi cais i uno'n wirfoddol **tra bo'r Bil yn dal i gael ei**

**ystyried.”**

## 9.5. Adran 124: Cyngorau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol

**180.** Rhaid i reoliadau uno ddarparu y bydd cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd. Ym mron pob achos, rhaid ethol cyngorau cysgodol y flwyddyn cyn y dyddiad trosglwyddo a byddant yn cynnwys holl aelodau'r cyngorau sy'n uno. Bydd angen gweithrediaeth gysgodol ar y cyngor cysgodol hefyd.

## 9.6. Adrannau 125 a 126: System bleidleisio ac etholiadau

**181.** Byddai'n ofynnol i reoliadau uno bennu pa system bleidleisio y dylid ei defnyddio (STV neu FPTP). Byddai hwn yn benderfyniad i'r cyngorau sy'n uno ei wneud wrth lunio eu cais.

**182.** Oni cheir cytundeb, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r system bleidleisio yn seiliedig ar y system bleidleisio a ddefnyddir yn y ddau gyngor, neu yn y mwyafrif o gynghorau sy'n uno, yn union cyn gwneud cais i uno. Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r system bleidleisio a ddefnyddir, er enghraifft, pe bai pedwar cyngor yn uno, a dau yn defnyddio STV a dau yn defnyddio FPTP. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau sy'n uno cyn i'r system gael ei phenderfynu.

## 9.7. Pennod 2 – Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

**183.** Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bwerau, drwy orchymyn, i gyfuno dau neu dri phrif gyngor i greu cyngorau newydd. Mae'r bwerau hyn wedi'u cynnwys ym Mesur 2011. Mae'r adrannau sy'n ymwneud ag ailstrwythuro yn y Bil hwn yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn darparu mecanwaith mwy ymatebol ac effeithiol ar gyfer ailstrwythuro prif gyngor.

**184.** Gallai ailstrwythuro prif gyngor olygu uno'r cyngor ag un neu ragor o'i gynghorau cyfagos, neu rannu ei ardal rhwng dau neu ragor o'i gymdogion.

**185.** Mae'r bennod sy'n ymwneud ag ailstrwythuro hefyd yn rhoi **pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo** Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad o ffiniau prif gyngor. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau "eang" i'r Comisiwn gynnal adolygiadau o ffiniau prif gynghorau. Dim ond y Comisiwn ei hun all gychwyn yr adolygiadau hyn, a gallant wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer newid ffiniau. Gallai hefyd argymhell dileu prif ardal.



## 9.8. Adrannau 128-130: Amodau i'w bodloni, ceisiadau i ddiddymu a rheoliadau ailstrwythuro

- 186.** Er mwyn cychwyn ar y broses o wneud rheoliadau ailstrwythuro, rhaid cwrdd â phum amod. Mae'r amodau hyn wedi'u nodi yn adran 128, is-adrannau (2) i (6):
- Bod adroddiad arolygiad arbennig wedi'i gyhoeddi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu fod Gweinidogion Cymru wedi cael cais i ddiddymu gan brif gyngor.
  - Bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad i'r cyngorau yr effeithir arnynt bod adroddiad arbennig neu gais i ddiddymu wedi dod i law.
  - Bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyngorau y bydd y rheoliadau ailstrwythuro yn effeithio arnynt, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
  - Ar ôl ymgynghori, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon, **heb** reoliadau ailstrwythuro, nad yw'n debygol y bydd llywodraeth leol **effeithiol a chyfleus** yn cael ei sicrhau yn ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth.
  - Rhoi rhybudd i'r cyngorau y bydd rheoliadau yn cael eu gwneud.
- 187.** Mae adran 129 yn gwneud darpariaeth i brif gyngor ofyn i Weinidogion Cymru ystyried diddymu'r cyngor a'i brif ardal. Rhaid i'r cais gael ei wneud gan y **cyngor llawn**, nid y weithrediaeth.
- 188.** Mae adran 130 yn pennu'r pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau ailstrwythuro. Bydd y rheoliadau'n nodi'r strwythurau llywodraeth leol a fydd yn disodli'r prif gyngor neu'r cyngorau yr effeithir arnynt.

## 9.9. Adran 131-133: Rheoliadau ailstrwythuro – materion penodol eraill i'w cynnwys

- 189.** Mae adrannau 131 i 133 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys, neu y dylid ystyried ei gynnwys, ar gyfer y rheoliadau ailstrwythuro.
- 190.** Mae adran 131 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau ailstrwythuro lle y bydd rhan o brif ardal cyngor yn dod yn rhan o brif gyngor arall sy'n bodoli eisoes. Rhaid i reoliadau gynnwys, neu gallant gynnwys, faterion fel systemau pleidleisio, trefniadau gweithrediaeth, cyfnodau swyddi a chydabyddiaeth ariannol mewn rheoliadau. Caiff y rheoliadau hefyd nodi'r angen i ohirio neu ganslo etholiad cyffredin, neu hyd yn oed ymestyn cyfnod swyddi aelodau.
- 191.** Mae adran 132 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau ailstrwythuro sy'n creu prif ardal newydd. Er bod rhai materion fel systemau pleidleisio wedi'u cynnwys yma, mae yna faterion eraill y mae'n rhaid eu cynnwys mewn



rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud â ffin y brif ardal newydd, pa un a yw i fod yn sir neu'n fwrdeistref sirol ac ar gyfer cyngor cysgodol etholedig.

**192.** Mae adran 133 yn rhoi rhyw gymaint o ddisgresiwn i gynnwys darpariaethau y tu allan i adrannau 131 a 132. Er enghraifft, gall rheoliadau ailstrwythuro ddarparu ar gyfer sefydlu pwyllgor i gynnig cyngor ac argymhellion ynglŷn â throsglwyddo swyddogaethau neu faterion staffio. Gall hefyd ddarparu ar gyfer sefydlu corff corfforedig i fynd i'r afael â gwaredu neu gaffael eiddo, neu i fenthyca arian neu ei roi ar fenthyg.

### 9.10. Pennod 3 – Swyddogaethau'n ymwneud ag Uno ac Ailstrwythuro

#### 9.11. Adrannau 135 a 136: Pwyllgorau pontio a chyfyngiadau ar drafodiadau

**193.** Mae adran 135 yn cyflwyno Atodlen 10. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro.

**194.** Mae Atodlen 10 yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer pwyllgorau pontio, gan gynnwys aelodaeth, y mae'n rhaid iddynt gynnwys nifer gyfartal o aelodau o'r cynghorau sy'n uno, a bod yn rhaid i arweinwyr gweithrediaeth pob cyngor wasanaethu arno.

**195.** Mae'r pwyllgor pontio i gynghori a gwneud argymhellion ar gyfer cynghorau a chynghorau cysgodol, ac, mewn rhai achosion, Weinidogion Cymru ynghylch materion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Gall hefyd greu is-bwyllgorau i gynghori'r pwyllgor pontio ar feysydd penodol.

**196.** Rhaid i'r cynghorau sy'n uno dalu cost y pwyllgor pontio, gan gynnwys staff, adnoddau a chyfleusterau.

**197.** Mae adran 136 ac Atodlen 11 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod cyfyngiadau a rheolaethau penodol ar weithgareddau penodol cynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro. Ymdrinnir â methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddwyd mewn perthynas â gweithgaredd cyfyngedig ym mharagraff 5 o'r Atodlen. Mae'n bosibl y bydd cosbau sylweddol gan y gallai atal awdurdod sy'n uno rhag pennu a chasglu ei dreth gyngor.

#### 9.12. Adran 137: Adolygiadau o drefniadau etholiadol

**198.** Caiff Gweinidogion Cymru, o dan y ddarpariaeth hon, gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd ar ôl i gais ddod i law gan brif

gynghorau ar gyfer uno neu ailstrwythuro'n wirfoddol.

### 9.13. Pennod 4 - Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer prif gynghorau newydd

### 9.14. Adrannau 141-44: Cyfarwyddydau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, adroddiadau gan banel a datganiadau ar bolisiau tâl

- 199.** Mae adran 141 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyflawni'r 'swyddogaethau perthnasol' sy'n ymwneud â thaliadau i'w gwneud i aelodau etholedig mewn perthynas â chynghorau cysgodol.
- 200.** Mae adran 142 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyflwyno adroddiad (naill ai ar ffurf adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol) ar ei benderfyniadau o ran tâl i aelodau cyngor cysgodol.
- 201.** Mae adran 144 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cysgodol baratoi a chymeradwyo datganiad ar bolisiau tâl sy'n darparu ar gyfer eglurder a thryloywder polisiau'r cyngor cysgodol sy'n ymwneud â thâl ei weithlu. Gwaherddir cynghorau cysgodol rhag penodi prif weithredwr (a benodir o dan adran 59 o'r Bil hwn) hyd nes bod y datganiad ar bolisiau tâl wedi'i gymeradwyo.

## 10. Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth leol

Mae Rhan 8 o'r Bil yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch ardrethi annomestig, a elwir hefyd yn ardrethi busnes, a'r dreth gyngor.

Mae'r Bil yn cyflwyno mesurau newydd mewn achos o osgoi trethi mewn perthynas ag ardrethi annomestig. Bydd hefyd yn diwygio'r ffordd y mae'r lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei gyfrif.

Bydd y Bil hefyd yn dileu'r pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr y dreth gyngor.

### 10.1. Adrannau 149-151: Osgoi ardrethi annomestig

**202.** Bydd y Bil yn cyflwyno nifer o fesurau yn ymwneud ag osgoi ardrethi annomestig, gan ddiwygio Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn perthynas â gweinyddu ardrethi annomestig.

**203.** Mae adran 149 o'r Bil yn darparu pwerau i Awdurdodau Bilio ofyn am wybodaeth gan y rhai sy'n talu ardrethi a thrydydd partion at ddibenion arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â bilio a chasglu ardrethi annomestig. Mae'n cyflwyno dirwyon am euogfarnau am wneud datganiad ffug yn ymwneud â hysbysiad, ac am fethu â darparu gwybodaeth. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi awdurdodau bilio ofyn am wybodaeth neu gael gwybodaeth, ar yr amod bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r rheoliadau a wneir.

**204.** Mae Adran 150 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau hysbysu prif gynghorau am newidiadau yn eu hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu rhwymedigaeth ardrethi. Mae'n cyflwyno dirwyon am euogfarnau am wneud datganiad ffug yn ymwneud â hysbysiad, ac am fethu â darparu gwybodaeth. Rhaid i'r rheoliadau hefyd ddarparu dull o apelio yn erbyn unrhyw ddirwy a osodir.

**205.** Mae adran 151 yn rhoi pwerau i awdurdodau bilio archwilio ac arolygu hereditament, ar yr amod bod Tribiwnlys Prisio Cymru wedi cymeradwyo hyn, ac wedi rhoi 24 awr o hysbysiad ysgrifenedig o'r defnydd arfaethedig o'r pŵer. Rhaid i berson sy'n arfer y pŵer hwn roi tystiolaeth ysgrifenedig o'i awdurdod i wneud hynny os gofynnir am hynny. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno dirwyon i bobl sy'n cael eu dyfarnu'n euog o oedi neu rwystro person yn fwriadol rhag arfer y pŵer hwn.

**206.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y mesurau hyn yn yr ymgynghoriad ar Fil drafft 2015 ac yn y ddogfen **Mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru. Ar dudalen 43 o'r Memorandwm Esboniadol nodir fel a ganlyn:**

“Roedd y rhai a ymatebodd yn cytuno'n gyffredinol bod angen rhoi sylw i'r mater o osgoi, ac roedd cefnogaeth i greu deddfwriaeth newydd wrth ochr amrywiol gynigion eraill Llywodraeth Cymru sy'n anneddfwriaethol neu sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio is-ddeddfwriaeth.”

**207.** Yn y **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, nodir (tudalennau 7-8):

“Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r trefniadau diogelu arfaethedig ar y cyfan, gyda 29 o blaid y mesurau hyn. Ond, roedd rhywfaint o bryder nad oedd cael dim ond 24 awr o rybudd yn ddigon. Yn benodol, byddai'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn hoffi cael rhybudd o wythnos o leiaf.”

**208.** O 2021-22, byddai awdurdodau lleol yn ysgwyddo costau blynyddol o **£257,000**, neu **£11,769 fesul awdurdod lleol**. Mae'r costau hyn yn cynnwys 25 y cant o amser swyddog bilio ym mhob awdurdod lleol ar gyfer cadw gwybodaeth yn gyfredol ac yn ymchwilio i weithgaredd osgoi.

## 10.2. Adran 152: Lluosydd cyfraddau annomestig

**209.** Mae adran 152 o'r Bil yn diwygio atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i wneud newid parhaol i'r ffordd y mae'r lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei gyfrif. Mae'n nodi sut y bydd y lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei osod ar gyfer blwyddyn ariannol, gan ddefnyddio'r cynnydd blynyddol ym mynegai prisiau defnyddwyr (CPI).

**210.** Mae gwerth ardrethol eiddo yn amcangyfrif o'r rhent y gellid ei godi am yr eiddo fesul blwyddyn ar y farchnad agored ar adeg benodol. Yna, caiff hyn ei luosi â'r 'geiniog yn y bunt' a dalwyd mewn ardrethi annomestig, a elwir yn lluosydd, i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer yr eiddo.

**211.** Cyn 2018-19, cynyddwyd y lluosydd cyfraddau annomestig ar ddechrau pob blwyddyn ariannol gan fesur chwyddiant y mynegai prisiau manwerthu (RPI). O 2018-19 defnyddiwyd mesur chwyddiant CPI yn lle RPI, i fabwysiadu'r un dull a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr.

**212.** Mae is-adran (2)(f) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i newid y dull o gyfrifo'r lluosydd o CPI i ddull amgen, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Cynulliad.

**213.** Nodir y costau sy'n gysylltiedig ag adran 152 ar dudalennau 250 i 254 o'r Memorandwm Esboniadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau arbedion o

£8,000 ym mhob blwyddyn ariannol rhwng 2021-22 oherwydd arbedion amser o beidio â pharatoi is-ddeddfwriaeth flynyddol i addasu'r cyfrifiad a ddefnyddir i bennu'r lluosydd.

### 10.3. Adran 154: Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr y dreth gyngor

**214.** Mae darpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer carcharu o ganlyniad i beidio â thalu treth gyngor. Mae adran 154 o'r Bil yn dileu'r pŵer galluogi hwn fel mai dim ond mewn perthynas ag awdurdodau bilio yn Lloegr y gellir ei wneud. Rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y dull hwn yw:

“Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod carcharu yn ymateb anghymesur, sydd wedi dyddio, i fater o ddyled sifil, a bod y costau ariannol a'r effaith ar aelwydydd yn gwrthbwysu'r manteision.”

**215.** Yn 2018 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gael gwared â charchar fel cosb am fethu â thalu'r dreth gyngor. Ar 1 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet ar y pryd, Mark Drakeford AC, o 1 Ebrill 2019, na fyddai bellach yn bosibl cychwyn achos i garcharu person am fethu â thalu'r dreth gyngor. Dywedodd hefyd:

“Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, gofynnodd yr awdurdodau lleol am fesurau ychwanegol i'w helpu i gynnal eu cyfraddau casglu. Rydym wedi ymrwmo i gydweithio â'r awdurdodau lleol i fonitro'r gwaith o newid y ddeddfwriaeth a byddaf yn ystyried cyflwyno mesurau newydd os bydd angen.”

**216.** Ym mis Chwefror 2019, fe wnaeth y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AC, **osod rheoliadau** i ddiwygio rheoliadau 47 a 48 yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019 i gael gwared ar bŵer gorfodi trwy garcharu o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

## 11. Rhan 9 – Amrywiol

Mae Rhan 9 o'r Bil yn ymdrin â nifer o wahanol feysydd mewn perthynas â llywodraeth leol a'r awdurdodau tân ac achub. Ymhlith y meysydd sydd wedi'u cynnwys mae rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr (adran 156), uno a daduno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (adran 161) a darpariaethau sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub cyfunol (adrannau 162-163).

### 11.1. Adran 157: Pennaeth gwasanaethau democrataidd

**217.** Mae adran 157 yn diwygio adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn awdurdod lleol yn cael ei drin fel prif swyddog ac yn cael amddiffyniad statudol priodol. Mae hefyd yn dileu'r gwaharddiad statudol ar hawl Swyddog Monitro awdurdod lleol i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**218.** Roedd y Mesur yn cyflwyno darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau benodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd ac iddo swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys y ddyletswydd i ddynodi un o swyddogion y cyngor yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Fodd bynnag, ni nododd y Mesur lefel y swyddog a ddylai gyflawni'r ddyletswydd.

### 11.2. Adran 161: Uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**219.** Mae adran 161 o'r Bil yn diwygio adran 47 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant). Mae'n darparu y caiff Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig ddaduno, neu ddaduno yn rhannol, os ystyrir y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bwrdd i ddaduno neu ddaduno yn rhannol mewn amgylchiadau lle y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

**220.** Mae hefyd yn nodi pa gamau y mae angen eu cymryd o ran paratoi cynlluniau llesiant lleol ar ôl uno, daduno, neu ddaduno bwrdd yn rhannol. Cyn cyhoeddi cynllun, rhaid i fwrdd ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Gweinidogion Cymru, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

**221.** Ar hyn o bryd, mae tri Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus unedig yng Nghymru – Conwy a Sir Ddinbych; Gwynedd ac Ynys Môn; a Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Nid yw'r 16 awdurdod lleol sy'n weddill wedi uno, ac mae ganddynt

eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hunain.

### 11.3. Adrannau 162 a 163: Awdurdodau tân ac achub

- 222.** Mae adran 162 o'r Bil yn ymdrin ag ymchwiliadau i drefniadau cyllid a llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub. Sefydlir y rhain drwy "orchmynion cyfunol" o dan **Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**. Mae'n diwygio'r Ddeddf hon i ddileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad wrth amrywio gorchymyn cyfunol Awdurdod Tân ac Achub, ac eithrio pan fo'r amrywiad yn newid yr ardal a wasanaethir gan yr awdurdod, neu y byddai'n dirymu'r gorchymyn cyfunol gyda'r bwriad o greu cyfluniad cwbl wahanol o Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.
- 223.** Mae adran 163 yn ymdrin â pherfformiad a llywodraethu awdurdodau tân ac achub, ac yn cyflwyno system rheoli perfformiad newydd ar eu cyfer ar ôl diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- 224.** Mae'r darpariaethau yn diwygio Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ddarparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ddatblygu cynlluniau strategol, ac i osod gofynion sy'n ymwneud â chynllun.
- 225.** Gallai'r gofynion hyn gwmpasu cynnwys cynllun; y broses o'i baratoi a'i adolygu; pryd y bydd yn cael ei wneud; y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef; a'i gyhoeddiad. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesu neu adrodd ar berfformiad awdurdod, gan gynnwys gosod gofynion. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub, cynrychiolwyr gweithwyr ac unrhyw un arall y maent yn ystyried ei fod yn briodol ymgynghori ag ef.

## 12. Ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil

### 12.1. Gwaith craffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyhoeddi adroddiad arnynt.

Cynhaliodd y Pwyllgor **15 sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid**, a oedd yn cynnwys dwy sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ymgynghoriad cyhoeddus ac arolwg gydag aelodau o'r cyhoedd ynghylch Rhan 3 o'r Bil sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer hybu mynediad at lywodraeth leol.

Cyhoeddwyd **Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil ar 13 Mawrth 2020** (PDF 2MB), ac mae'n gwneud 32 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ystod eang o faterion mewn perthynas â'r Bil.

Argymhellodd y Pwyllgor fod **Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno** ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

### 12.2. Gwaith craffu ar y Bil gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae **Pwyllgor Cyllid** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Cynulliad hefyd wedi craffu ar y Bil, a chynhaliodd y ddau sesiynau tystiolaeth gyda'r Gweinidog ar eu priod feysydd diddordeb.

Cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyllid** (PDF 1MB) a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** (PDF 1MB) eu hadroddiadau hwythau ar 13 Mawrth 2020. Nododd y ddau Bwyllgor eu pryderon ynghylch y nifer o bwerau galluogi Weinidogion Cymru a allai cael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn bryderus am y diffyg amcangyfrifon gorau o'r costau yn gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth. Nodir argymhelliad mewn adroddiad arall ar is-ddeddfwriaeth ganddynt:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu darlun mor lawn â phosibl o gostau is-ddeddfwriaeth wrth gynnig deddfwriaeth sylfaenol.

Nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei hadroddiad bod yna bwerau i greu is-ddeddfwriaeth mewn meysydd polisi nad ydynt eisioes



wedi eu datblygu yn llawn. Nodir:

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cymryd pwerau i gyflawni polisi na ddatblygwyd yn llawn ac na ragwelwyd eto. Rydym o'r farn bod hyn yn arfer deddfwriaethol gwael. Mae'r ymagwedd hon yn darparu gormod o bŵer i'r wethrediaeth ar draul y ddeddfwrfa.





